
25 Chwefror 2016

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Sefydlu ac arolygu Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.

Tîm Swyddfa Archwilio Cymru a gyflwynodd y gwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol oedd Mike Usher a Mark Jones, gyda chefnogaeth Grant Thornton LLP a Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: post@archwilio.cymru, neu gweler y wefan www.archwilio.cymru.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2016

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost post@archwilio.cymru

# Cynnwys


Crynodeb 6

Argymhellion 10

Adroddiad Manwl 12

Datganwyd gwrthdaro buddiannau yn briodol ond dylai hyn fod wedi cael ei drin yn gadarnach gan Lywodraeth Cymru 13

Yr oedd y penderfyniad i gaffael rheolwr i'r gronfa wedi ei ddogfennu'n wael, heb unrhyw gofnodion cyfoes i ddangos y byddai contractio am reolwr i'r gronfa yn rhoi gwell gwerth am arian na recriwtio staff arbenigol gan Gyllid Cymru ei hun 15

Yr oedd rhai diffygion arwyddocaol yn y modd y gwnaeth Cyllid Cymru gaffael Rheolwr y Gronfa 16

Ni all Llywodraeth Cymru na Chyllid Cymru roi cyfiawnhad digonol dros grynswth eu taliadau i'r tendrwr llwyddiannus dan y trefniadau interim 19

Nid oedd y trefniadau arolygu a osodwyd gan Gyllid Cymru yn ddigon cadarn, ac o ganlyniad ni chafodd un agwedd o'r buddsoddiad yn ReNeuron Plc ei drin yn unol â chontractau Rheoli'r Gronfa 24

Ochr yn ochr â buddsoddiad y Gronfa yn ReNeuron Plc, nid oedd y ffaith i Lywodraeth Cymru ddyfarnu cymorth ariannol mewn egwyddor i ReNeuron yn cydymffurfio â'u prosesau busnes arferol, ac nid oes modd cadarnhau a wnaeth drin yn briodol wrthdrawiad buddiannau clir a ddatganwyd iddynt 26

Canfu ein hadolygiad o drydydd buddsoddiad y Gronfa fod gwrthdaro buddiannau wedi eu rheoli'n iawn gan bawb dan sylw, a hyd yma, nid yw Cyllid Cymru wedi nodi unrhyw bryderon ynghylch trin gwrthdrawiadau ym muddsoddiadau dilynol y Gronfa 29

Ar hyn o bryd ni all Cyllid Cymru, nac yn wir Llywodraeth Cymru, arfer unrhyw reolaeth gontractaidd dros y ffioedd trefnu a godir gan Reolwr y Gronfa, oherwydd i'r sgôp ar gyfer codi ffioedd o'r fath gael ei anwybyddu yn ystod y broses gaffael 31

Trwy ddewis hepgor ei hawl contractaidd i symud ymaith Reolwr y Gronfa heb achos, mae Cyllid Cymru wedi lleihau ei allu i arfer rheolaeth dros gontract rheoli'r gronfa a thanseilio ei bŵer cyfreithiol ei hun i ymyrryd ar ffioedd trefnu 34

Nid yw Llywodraeth Cymru eto wedi pennu i ba raddau y mae'n disgwyl i endidau'r sector preifat sydd wedi eu contractio i reoli a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus ar eu rhan gydymffurfio ag Egwyddorion Nolan 35

Atodiadau 38

Atodiad 1 - Crynodeb o daliadau a wnaed i Reolwr y Gronfa dan y 'trefniadau interim' 39

Atodiad 2 - Argymhellion Archwilwyr Mewnol Llywodraeth Cymru (detholion) 41

Atodiad 3 - Adroddiad 'Gwersi a Ddysgwyd' Llywodraeth Cymru a Chamau a Gymerwyd (Ionawr 2015) 44

Atodiad 4 - Adroddiad Archwilio Mewnol Cyllid Cymru (detholion perthnasol) 47

Atodiad 5 - Dulliau Archwilio 49

# Crynodeb

## Sefydlu ac arolygu Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru

1 Mae ‘gwyddorau bywyd’ (yn bennaf bioleg, technoleg biofeddygol, geneteg a disgyblaethau cysylltiedig) yn sbardun sylweddol a chynyddol i dwf economaidd mewn cenhedloedd diwydiannol modern ledled y byd, ac y mae llawer llywodraeth naill ai yn buddsoddi neu’n cefnogi buddsoddiad yn y sector busnes pwysig hwn. Yng Nghymru, cyhoeddwyd Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru (y Gronfa) ym Mawrth 2012 gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

2 Cronfa ecwiti unswydd yw’r Gronfa a ddelir ar ran Llywodraeth Cymru gan Cyllid Cymru ccc (Cyllid Cymru). Mae gan y Gronfa darged o werth buddsoddi o £100 miliwn ar gyfer buddsoddi mewn busnesau gwyddorau bywyd sydd wedi eu lleoli yng Nghymru neu a fydd yn cael eu lleoli yno. Hyd yma, ymrwymodd Llywodraeth Cymru £50 miliwn[1], gyda’r disgwyliad cychwynnol[2] y denir £50 miliwn yn ychwanegol mewn cyllid cyfatebol o sector preifat yn y man gan y sawl a gontractiwyd i fod yn Rheolwr y Gronfa, Arthurian Life Sciences Ltd (Rheolwr y Gronfa). Perchennog mwyafrifol ond nid cyfan gwbl Arthurian yw’r Athro Syr Christopher Evans, sydd hefyd yn Gyfarwyddwr i’r cwmni (trwy fod yn Bartner Cyfyngedig i’r Gronfa).

3 Mae’n amlwg o’r Gwahoddiad i dendro a dogfennaeth y Gronfa y bwriedir i’r Gronfa gael ei rhedeg ar sail fasnachol gyda’r prif nod o gynhyrchu twf cyfalaf ac elw i fuddsoddwyr y Gronfa, yn amodol ar gydymffurfio â Rheolau Cymorth Gwladwriaethol. Pwysleisiodd Rheolwr y Gronfa wrthym, trwy weithio ar y sail arfaethedig hon, nad yw buddsoddiadau’r Gronfa yn ymdebygu i ddarparu arian cyhoeddus trwy ddulliau mwy nodweddiadol megis arian grant.

4 Ym Mawrth 2015 cyhoeddodd Rheolwr y Gronfa eu bwriad i geisio codi £150 miliwn neu fwy gan brif fuddsoddwyr sefydliadol byd-eang. Bwriad Rheolwr y Gronfa yw y bydd hyn ar gael i’w fuddsoddi yn y sector gwyddorau bywyd yng Nghymru, i gefnogi buddsoddiadau presennol y Gronfa ac i gyd-fuddsoddi ochr yn ochr â’r Gronfa mewn buddsoddiadau newydd. Uchelgais Rheolwr y Gronfa yw creu portffolio buddsoddi o 25 i 30 cwmni, gyda chefnogaeth i ymchwil gan brifysgolion a sgil-weithgareddau masnachol, ynghyd ag unrhyw ymrwymiadau cyllido pellach gan Lywodraeth Cymru a lle i ddenu Partneriaid Cyfyngedig ychwanegol i’r Gronfa ei hun.

5 Fodd bynnag, mae’n bwysig nodi nad yw’r adroddiad archwilio hwn yn ystyried a yw perfformiad buddsoddi’r Gronfa ei hun yn rhoi gwerth am arian. Y rheswm am hyn yw gellir yn synhwyrol gynnal asesiad o’r fath yn unig wedi i’r Gronfa sefydlu mwy o record o berfformio yn gyffredinol yn erbyn ei thargedau ar gyfer buddsoddi a sicrhau cyllid cyfatebol o’r sector preifat. Ym mis Awst 2015 cynigiodd Rheolwr y Gronfa i Gyllid Cymru y dylent gynnal adolygiad gwerth-am-arian ffurfiol o fuddsoddiadau’r Gronfa. Barn Cyllid Cymru oedd ei bod yn rhy gynnar i adolygiad o’r fath fod yn ystyrlon. Fodd bynnag, y mae Cyllid Cymru ar hyn o bryd yn caffael adolygiad tair-blynedd (hyd at Chwefror 2016) o berfformiad Rheolwr y Gronfa.

1 Ymrwymwyd £25 miliwn ym Mawrth 2012 ac yna £25 miliwn arall yn Chwefror 2013.
2 Yn y contractau sy’n bodoli (gweler **paragraffau 1.4 a 1.31**) disgwylir i Reolwr y Gronfa wneud eu gorau glas (‘best endeavours’) i godi £50 miliwn ychwanegol o arian sector preifat erbyn 31 Rhagfyr 2015.

6 Ym Medi 2013 derbyniodd yr Archwilydd Cyffredinol gais trwy Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gan aelod o'r cyhoedd ynghylch buddsoddiad y Gronfa yn Awst 2013 yn ReNeuron Plc. Mewn ymateb, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol gynnal adolygiad archwilio o sefydlu, llywodraethiant, arolygu a gweithrediad cynnar y Gronfa. Ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi edrych i mewn i weld a wnaeth Llywodraeth Cymru a Chyllid Cymru sefydlu'r Gronfa ac arolygu ei gweithrediadau cychwynnol yn effeithiol.

7 Gallodd ein hadolygiad hefyd fanteisio ar adolygiad cyfoes o agweddau o'r Gronfa, a gynhaliwyd gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru ar gais y Prif Swyddog Cyfrifyddu mewn ymateb i erthyglau yn y cyfryngau ynghylch agweddau o weithrediadau'r Gronfa a'i harolygu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn felly yn tynnu ar dystiolaeth a ddarparwyd yn adolygiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i'r graddau isod:

a fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i gychwyn wedi archwilio'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru;

b fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a staff Swyddfa Archwilio Cymru ar y cyd wedi archwilio'r camau a gymerwyd gan Cyllid Cymru; a

c bod staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi archwilio'r camau a gymerwyd gan Reolwr y Gronfa, Arthurian.

8 Cyhoeddodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol eu hadroddiad terfynol ym mis Mehefin 2014. Derbyniodd Llywodraeth Cymru pob un o'i 11 o argymhellion, sydd yn Atodiad 2. Yn 2015 adolygodd Archwilio Mewnol gynnydd Llywodraeth Cymru yn erbyn yr argymhellion gan adrodd ar eu canfyddiadau ar 27 Mawrth 2015. Roedd yr adolygiad dilynol yn rhoi 'sicrwydd rhesymol' ynglŷn â'r camau a gymerwyd gan reolwyr Llywodraeth Cymru gan fod un argymhelliad heb ei weithredu a gwaith yn mynd rhagddo ar dri argymhelliad. Cyflwynodd yr adolygiad un argymhelliad pellach ynghylch y sianelau cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru, Cyllid Cymru a Rheolwr y Gronfa. Yn ychwanegol at y gwaith archwilio uchod, comisiynodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd arbenigedd annibynnol gan Grant Thornton UK LLP (Grant Thornton).

## Casgliadau cyffredinol

9 Mae cysyniad y Gronfa, sydd â’r nod o feithrin buddsoddiad a symbylu twf economaidd yn y sector gwyddorau bywyd Nghymru, yn arloesol ac yn glodwiw ar lawer ystyr. Mae argymhellion yr archwiliad yn yr adroddiad hwn yn ymdrin â materion a nodwyd gennym parthed rheolaeth Llywodraeth Cymru o’u perthynas â’u corff hyd-braich eu hun, Cyllid Cymru, a hefyd wrth ymwneud ag endid sector preifat a gontractwyd i weithredu fel asiant i fod yn gyfrifol am reoli arian cyhoeddus. Bwriad ein hargymhellion, y mae llawer ohonynt yn gymwys yn ehangach i adrannau eraill Llywodraeth Cymru, yw cynnal a gwella cymryd risgiau dan reolaeth dda a llywodraethiant da, yn hytrach na mygu arloesedd. Erys yn hanfodol bwysig i Lywodraeth Cymru barhau i edrych i mewn i ffyrdd newydd o gefnogi eu blaenoriaethau polisi sydd yn gynaliadwy ac yn harneisio sgiliau, profiad a chyllid y sector preifat.

10 Daethom i’r casgliad fod llawer agwedd o sefydlu, llywodraethiant, arolygu a gweithrediad cynnar y Gronfa yn wallus a/neu wedi eu dogfennu’n wael. Yn benodol, daethom i’r casgliadau canlynol:

- a datganwyd gwrthdrawiad buddiannau yn briodol, ond dylai hyn fod wedi cael ei drin yn gadarnach gan Lywodraeth Cymru;
- b yr oedd y penderfyniad i gaffael rheolwr i’r gronfa wedi ei ddogfennu’n wael, heb gofnodion cyfoes i ddangos y byddai contractio rheolwr i’r gronfa yn rhoi gwell gwerth am arian na recriwtio staff arbenigol gan Cyllid Cymru ei hun;
- c yr oedd rhai diffygion arwyddocaol yn y modd y gwnaeth Cyllid Cymru gaffael Rheolwr y Gronfa;
- ch ni all Llywodraeth Cymru na Chyllid Cymru roi cyfiawnhad digonol dros grynswth eu taliadau i’r tendrwr llwyddiannus dan y trefniadau interim;
- d nid oedd y trefniadau arolygu a osodwyd gan Gyllid Cymru yn ddigon cadarn, ac o ganlyniad ni chafodd un agwedd o’r buddsoddiad yn ReNeuron Plc ei drin yn unol â chontractau Rheoli’r Gronfa;
- dd ochr yn ochr â buddsoddiad y Gronfa yn ReNeuron Plc, nid oedd y ffaith i Lywodraeth Cymru ddyfarnu cymorth ariannol mewn egwyddor i ReNeuron yn cydymffurfio â’u prosesau busnes arferol, ac nid oes modd cadarnhau a wnaeth drin yn briodol wrthdrawiad buddiannau clir a ddatganwyd iddynt;
- e canfu ein hadolygiad o drydydd buddsoddiad y Gronfa fod gwrthdaro buddiannau wedi eu rheoli’n iawn gan bawb dan sylw, a hyd yma, nid yw Cyllid Cymru wedi nodi unrhyw bryderon ynghylch trin gwrthdrawiadau ym muddsoddiadau dilynol y Gronfa;

f ar hyn o bryd ni all Cyllid Cymru, nac yn wir Llywodraeth Cymru, arfer unrhyw reolaeth gontractaidd dros y ffioedd trefnu a godir gan Reolwr y Gronfa, oherwydd i'r sgôp ar gyfer codi ffioedd o'r fath gael ei anwybyddu yn ystod y broses gaffael;

ff trwy ddewis hepgor ei hawl contractaidd i symud ymaith Reolwr y Gronfa heb achos, mae Cyllid Cymru wedi lleihau ei allu i arfer rheolaeth dros gontract rheoli'r gronfa a thanseilio ei bŵer cyfreithiol ei hun i ymyrryd ar ffioedd trefnu; ac

g nid yw Llywodraeth Cymru eto wedi pennu i ba raddau y mae'n disgwyl i endidau'r sector preifat sydd wedi eu contractio i reoli a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus ar eu rhan gydymffurfio ag Egwyddorion Nolan.

11 Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod Rheolwr y Gronfa yn gweithredu mewn unrhyw fodd sy'n amhriodol neu'n anghywir wrth gymryd agwedd fasnachol tuag at reoli'r Gronfa. Yn y cyd-destun hwnnw, fe gawsom:

a fod codi ffioedd 'trefnu' neu 'drafod' ar gwmnïau y buddsoddir ynddynt gan reolwyr cronfeydd yn arfer safonol yn y diwydiant; ac

b yn niffyg unrhyw gyfyngiadau rhagnodedig yng nghontract rheoli'r Gronfa, mae lefel unrhyw ffioedd o'r fath, ac yn wir, unrhyw fath arall o ffioedd cyllid corfforaethol a all godi, yn y pen draw yn fater o drafod masnachol rhwng Rheolwr y Gronfa a'r cwmnïau y buddsoddir ynddynt.

12 Mewn ymateb i argymhellion y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn Atodiad 2, cytunodd Llywodraeth Cymru i baratoi 'Adroddiad Gwersi a Ddysgwyd' erbyn 31 Gorffennaf 2014 a'i weithredu erbyn Hydref 2014. Mae copi o'r Adroddiad Gwersi a Ddysgwyd, gan gynnwys y camau mae rheolwyr yn Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gymryd mewn ymateb iddo, yn Atodiad 3. Mae detholion perthnasol o adroddiad a gynhyrchwyd i Cyllid Cymru gan eu harchwilwyr mewnol eu hunain yn Atodiad 4. Mae'r dull archwilio a fabwysiadwyd gan dîm yr astudiaeth yn Atodiad 5.

# Argymhellion

13 Yr ydym wedi codi naw o argymhellion, ymhellach i'r rhai a godwyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Cyfeirir ein holl argymhellion at Lywodraeth Cymru yn unig, gan mai nhw sy'n dal y cyfrifoldeb Swyddog Cyfrifo dros Cyllid Cymru.

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau clir a chynhwysfawr i holl aelodau eu gweithgorau adrannol, gan gynnwys yr holl baneli sector eraill, ar ofynion llywodraethiant a osodir ar aelodau ac eraill sy'n mynychu yng nghyswllt datgelu ganddynt wrthdrawiadau buddiannau gwirioneddol, posib neu ganfyddiad am hynny. Dylai hyn hefyd gynnwys canllawiau clir i'w hysgrifenyddiaethau. |
| A2 | Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y canllaw hwn yn rhoi esiamplau da o gamau lliniaru nodweddiadol ar gyfer gwrthdrawiadau cyffredin ac yn amlygu, lle bo angen, y dylai swyddogion yr ysgrifenyddiaeth geisio cyngor ffurfiol y swyddogion cydymffurfio adrannol ac yna, os tybir bod angen hynny, gyngor arbenigol Uned Llywodraethiant Corfforaethol canolog Llywodraeth Cymru. |
| A3 | Dylai Llywodraeth Cymru adolygu cadernid, eglurder a chyfleu eu canllawiau i staff ar gyflogi gwasanaethau cyfreithiol yn amserol. |
| A4 | Os bydd newidiadau perthnasol i achos busnes (gan gynnwys cynnwys cyflwyniadau Gweinidogol), dylai swyddogion Llywodraeth Cymru geisio cyngor cyfreithiol pellach am y cynigion diwygiedig a gofalu y paratoir achos busnes wedi'i gyfoesi sydd yn tynnu ar y cyngor hwnnw. |
| A5 | Dylai Llywodraeth Cymru osod allan yn glir i Cyllid Cymru eu disgwyliadau parthed rôl Cyllid Cymru yn rheoli eu contract gyda Rheolwr y Gronfa. |
| A6 | Parthed pedwerydd buddsoddiad y Gronfa, yn Simbec-Orion Group Ltd, y canfu ein harchwiliad fod gwrthdrawiadau yn bodoli adeg y buddsoddiad, dylai Llywodraeth Cymru geisio gwirio:<br>• a wnaeth Rheolwr y Gronfa adrodd am eu gwrthdrawiadau buddiannau i Cyllid Cymru, yn ôl y gofyn;<br>• a wnaeth Cyfarwyddwyr perthnasol Rheolwr y Gronfa ymbellhau yn llawn oddi wrth y trafodaethau a'r penderfyniad am y buddsoddiad, yn ôl y gofyn;<br>• a dderbyniodd Rheolwr y Gronfa unrhyw ffioedd trefnu; ac<br>• os gwnaeth Rheolwr y Gronfa dderbyn ffioedd, eu gwerth a'r cyfiawnhad drostynt. |
| A7 | Parthed saith buddsoddiad dilynol y Gronfa (gweler paragraff 1.82), nas adolygwyd gan ein harchwiliad, dylai Llywodraeth Cymru geisio canfod:<br>• a oedd gan Reolwr y Gronfa unrhyw wrthdrawiadau buddiannau ac os felly, a ddatgelwyd hwy ai peidio i Cyllid Cymru yn ôl y gofyn;<br>• a dderbyniodd Rheolwr y Gronfa unrhyw ffioedd trefnu; ac<br>• os derbyniodd Rheolwr y Gronfa ffioedd, eu gwerth. |

| Argymhellion | |
|---|---|
| A8 | Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Cyllid Cymru yn ymwneud yn ffurfiol â Rheolwr y Gronfa i geisio cytuno ar: (i) sail benodol i gyfrifyddu ffioedd trefnu; a (ii) cap ar ffioedd o'r fath. |
| A9 | Dylai Llywodraeth Cymru:<br>• Bennu i ba raddau y mae'n disgwyl i endidau'r sector preifat sydd wedi eu contractio fel asiantwyr llywodraeth i reoli a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus i wneud y gwaith hwnnw yn unol ag Egwyddorion Nolan.<br>• Ddarparu canllawiau clir i'w swyddogion, ac i'w cyrff hyd-braich a noddedig, parthed eu disgwyliadau yn hyn o beth. Dylai'r canllawiau hynny gynnwys gofyniad fod amodau penodol priodol yn cael eu cynnwys mewn contractau yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. |

# Adroddiad Manwl



## Datganwyd gwrthdaro buddiannau yn briodol ond dylai hyn fod wedi cael ei drin yn gadarnach gan Lywodraeth Cymru

1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn rhedeg chwe Phanel Sector, gyda'u haelodau yn dod o'r sector preifat a ffynonellau eraill o arbenigedd y tu allan i Lywodraeth Cymru. Un o'r chwe phanel hyn yw'r 'Panel Sector Gwyddorau Bywyd'. Nid yw aelodau'r paneli yn gyflogedig gan Lywodraeth Cymru ac nid oes ganddynt felly gyfrifoldebau rheoli. Mae'r holl baneli yn gweithio i'r un cylch gorchwyl, a'u prif gyfrifoldeb yw: 'gweithio yn ôl cyfarwyddyd polisi Gweinidogion i sefydlu mecanweithiau addas ac effeithiol er mwyn sicrhau strategaeth briodol; a chynghori Llywodraeth Cymru wrth iddi sefydlu mesurau tymor byr, canol a hir i'r sectorau hyn yng Nghymru'.

1.2 Ym mis Tachwedd 2011, cyflwynodd pob un o'r chwe Phanel i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth[3] bapur cynhwysfawr yn gosod allan eu barn a'u hargymhellion ar Flaenoriaethau Strategol y Sector. Yn eu papur hwy, yr oedd Panel y Sector Gwyddorau Bywyd[4] (bryd hynny dan gadeiryddiaeth Syr Christopher Evans) yn cynnwys yr argymhelliad y dylai'r Gweinidog greu 'Cronfa Gwyddorau Bywyd wedi ei rheoli'n fasnachol gan weithwyr buddsoddi proffesiynol profedig'. Dengys cofnodion Panel y Sector Gwyddorau Bywyd fod y Panel wedi dal i ymwneud â datblygu ei gynigion am wyddorau bywyd, a gwnaeth swyddogion Llywodraeth Cymru gyflwyniad ffurfiol i'r Gweinidog ym Mawrth 2012 (gweler paragraff 1.11).

1.3 Ar 14 Mai 2012, ysgrifennodd Syr Christopher Evans at Brif Weithredwr Cyllid Cymru yn datgan ei ddiddordeb personol mewn rheoli'r gronfa fuddsoddi gwyddorau bywyd arfaethedig. Y diwrnod canlynol, ar 15 Mai, datganodd ei ddiddordeb hefyd i swyddogion Llywodraeth Cymru. Wedi'r datganiadau hyn, cyfarfu wedyn â swyddogion Llywodraeth Cymru a Chyllid Cymru i amlinellu ei gynigion i ddarparu gweithgareddau rheoli'r gronfa. Yn ein barn ni, yr oedd y datganiadau hyn yn briodol gan ei bod yn bwysig hysbysu Cyllid Cymru a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd o'r diddordeb mewn modd amserol. Ar 24 Mai 2012, ysgrifennodd Prif Weithredwr Cyllid Cymru ato i'w hysbysu y byddai Cyllid Cymru yn caffael rheolwr i'r gronfa trwy broses dendro agored, er mwyn cydymffurfio â rheolau caffael Cymorth Gwladwriaethol. Aeth y broses o gaffael rheolwr i'r gronfa gan Cyllid Cymru rhagddo wedyn ym mis Gorffennaf 2012.

1.4 Yn dilyn datganiad Syr Christopher Evans ym Mai 2012 fod ganddo ddiddordeb personol mewn rheoli'r gronfa, parhaodd fel Cadeirydd Panel Sector Gwyddorau Bywyd Llywodraeth Cymru (Panel y Sector) trwy gydol cyfnod caffael rheolwr y gronfa, yr oedd ei gwmni ef Arthurian Life Sciences Ltd (Arthurian) wedi tendro amdano. Dyfarnwyd y contract i Arthurian ar 8 Hydref 2012, er na chafwyd contractau Rheolwr y Gronfa[5] ar eu ffurf derfynol a'u llofnodi tan 28 Chwefror 2013 (gweler paragraff 1.31). Ymddiswyddodd fel Cadeirydd (a hefyd fel aelod) o Banel y Sector ar 19 Chwefror 2013.

3 Ym Mawrth 2013, cyhoeddodd y Prif Weinidog rai newidiadau i bortffolios Gweinidogol a chyfrifoldebau Adrannol. Golygodd hyn fod y Gwenidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn dod yn Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.
4 Ers 2011 bu rhwng pedwar a saith Aelod yn gwasanaethu ar y panel. Yn Hydref 2011, roedd chwe aelod.
5 Y Cytundeb Partneriaeth Cyfyngedig a'r Cytundeb Rheoli.

1.5 Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym nad oeddent yn gweld unrhyw gyswllt uniongyrchol rhwng yr ymarferiad caffael a pharhad rôl Cadeirydd Panel y Sector. Yr oeddent wedi ystyried na fyddai Cadeirydd Panel y Sector wedi gweld dogfennau na chael gwybodaeth fanteisiol yn ystod y broses gaffael, yn rhannol oherwydd bod swyddog allweddol Llywodraeth Cymru, Pennaeth y Sector Gwyddorau Bywyd (ar y pryd), wedi tynnu'n ôl o'r broses gaffael.

1.6 Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym hefyd nad oedd gan Banel y Sector unrhyw ddylanwad dros gaffael a phenodi Rheolwr y Gronfa, gan mai'r unig gyswllt uniongyrchol rhwng Llywodraeth Cymru a phenodi Rheolwr y Gronfa oedd bod un swyddog o Lywodraeth Cymru (nad oedd ag unrhyw gysylltiad â Phanel y Sector) wedi eistedd ar Banel Caffael Cyllid Cymru o bedwar asesydd[6]. Llwyddasom i gadarnhau fod cofnodion cyfarfodydd Panel y Sector yn cyfeirio wrth basio yn unig at gynnydd gyda'r broses gaffael, ac nad oedd awgrym fod Panel y Sector ei hun wedi ymwneud ag unrhyw benderfyniad.

1.7 Yn ein barn ni, dylai swyddogion Llywodraeth Cymru fod wedi cymryd camau cryfach i liniaru unrhyw ganfyddiadau oedd weddill o wrthdaro rhwng Cadeirydd Panel y Sector bryd hynny ac asesu cyflwyniad tendr ei gwmni i ymgymryd â swyddogaeth rheolwr y gronfa. Yr oedd hyn yn cynyddu'r perygl y gallai un o'r cwmniau eraill oedd wedi mynegi diddordeb yn swyddogaeth rheolwr y gronfa fynegi pryder am degwch proses cyflwyno'r tendr a'i werthuso. Ystyriwn felly y buasai wedi bod yn briodol i Lywodraeth Cymru ofyn i Gadeirydd Panel y Sector gamu o'r neilltu dros dro o fynychu a chymryd rhan yng ngwaith y Panel hyd nes y byddai'r broses gaffael wedi dod i ben ac i'r canlyniad fod yn hysbys, gyda Chadeirydd dros dro yn cymryd ei le.

1.8 Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud defnydd helaeth o baneli sector a grwpiau tebyg. O gadw mewn cof bwysigrwydd eu gwaith, ystyriwn fod angen i Lywodraeth Cymru gael sicrwydd fod pob panel a grŵp o'r fath yn llawn ddeall y disgwyliadau a osodir arnynt o ran eu hymddygiad. Yr ydym wedi gosod allan ddau argymhelliad parthed y maes sicrwydd hwn (Argymhelliad 1 ac Argymhelliad 2 ar dudalen 10).

1.9 Argymhellodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd (gweler Atodiad 2):

a Fod angen atgoffa Aelodau Panel y Sector o'r angen i ddatgan pob gwrthdrawiad buddiannau fel y maent yn codi a bod canllawiau'n cael eu rhoi iddynt ar beth yw gwrthdaro; a

b Bod Aelodau'r Panel yn cadarnhau diffyg neu bresenoldeb datganiadau o ddiddordeb ym mhob cyfarfod, gan gytuno ar gamau lliniaru a bod hyn yn cael ei gofnodi.

1.10 Fel y nodwyd yn Atodiad 2, derbyniodd swyddogion Llywodraeth Cymru y ddau argymhelliad hyn gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, a'u gweithredu ar unwaith.

6 Aelodaeth y Panel Caffael oedd: Cyfarwyddwr Buddsoddi (ar y pryd) Cyllid Cymru; Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol (ar y pryd) Cyllid Cymru; Dirprwy Gyfarwyddwr Cyflenwi Adran Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru ac, fel aelod annibynnol o'r Panel, Prif Swyddog Buddsoddi a Chyllid corff elusennol mawr.

## Yr oedd y penderfyniad i gaffael rheolwr i'r gronfa wedi ei ddogfennu'n wael, heb unrhyw gofnodion cyfoes i ddangos y byddai contractio am reolwr i'r gronfa yn rhoi gwell gwerth am arian na recriwtio staff arbenigol gan Cyllid Cymru ei hun

1.11 Mae Amlinelliad Strategol Achos Busnes Llywodraeth Cymru yn gosod allan dri dewis posib ar gyfer rheoli'r Gronfa: (i) yn fewnol gan Lywodraeth Cymru; (ii) Llywodraeth Cymru yn rhoi'r gwaith allan; neu (iii) ei reoli gan Cyllid Cymru. Gwerthuswyd y tri dewis yn ofalus o fewn yr achos busnes a'r dewis oedd i Gyllid Cymru reoli'r Gronfa. Yr oedd yr achos busnes yn cydnabod na fyddai gan Cyllid Cymru efallai yr arbenigedd angenrheidiol mewn gwyddorau bywyd ac y byddai angen felly recriwtio neu benodi tîm i reoli'r gronfa. Yn yr un modd, dywedodd papur cyflwyno terfynol y Gweinidog, dyddiedig 8 Mawrth 2012, y byddai Cyllid Cymru yn sefydlu ac yn rheoli'r Gronfa ar ran Llywodraeth Cymru a chyfeiriodd at yr angen i Gyllid Cymru recriwtio Panel Buddsoddi a Thîm Rheoli'r Gronfa o'r ansawdd uchaf.

1.12 Archwiliodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol benderfyniad Llywodraeth Cymru y dylai Cyllid Cymru gaffael rheolwr i'r gronfa trwy ymarferiad tendr cystadleuol, ond ni welwyd unrhyw dystiolaeth ddogfennol gyfoes i ddangos y byddai contractio gyda rheolwr i'r gronfa yn rhoi gwell gwerth am arian nag i Cyllid Cymru ei hun recriwtio staff sy'n meddu ar sgiliau arbenigol rheoli cronfeydd.

1.13 Yn unol â'r gweithdrefnau a fynnwyd gan Lywodraeth Cymru, yr oedd y cyflwyniad Gweinidogol yn gosod allan y cyngor cyfreithiol a geisiwyd gan swyddogion. Fodd bynnag, gyda'r cyngor cyfreithiol a ddarparwyd yn y cyflwyniad, yr oedd y datganiad: 'Ni fu'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn ymwneud â datblygu'r cynigion hyn ac ni chawsant gyfle i'w hystyried yn fanwl.'

1.14 Cafodd y cyngor cyfreithiol, a ddarparwyd ar faterion caffael a chymorth gwladwriaethol, ei gofnodi ei fod yn cael ei ddarparu ar y 'ddealltwriaeth' '…y bydd Cyllid Cymru yn sefydlu ac yn rheoli'r Gronfa ar ran Llywodraeth Cymru ac y telir ffi iddynt am wneud hynny. Ar yr wyneb, byddai hwn yn gontract rhwng Llywodraeth Cymru a Chyllid Cymru.'

1.15 Nodwn nad oedd 'dealltwriaeth' y Gwasanaethau Cyfreithiol, oedd yn sail i'w cyngor yn y cyflwyniad Gweinidogol, yn adlewyrchu'r penderfyniad yn y pen draw i gaffael rheolwr i'r gronfa, yn hytrach nag i Gyllid Cymru reoli'r gronfa yn uniongyrchol eu hunain. Mae diffyg dogfennaeth sydd yn gosod allan y cynnig, a'r penderfyniad, a ddaeth i law yn y man gan Lywodraeth Cymru a Chyllid Cymru i gaffael rheolwr i'r gronfa. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad oedd y ddogfennaeth, gan gynnwys cynnwys y cyflwyniad Gweinidogol terfynol, wedi cadw i fyny â chyflymder set o benderfyniadau busnes.

1.16 Fodd bynnag, nodwn hefyd, yn Ebrill 2014, fod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi cadarnhau mewn llythyr at Gyfarwyddwr Cyffredinol ei hadran: 'Yr oeddwn yn ymwybodol trwy gydol y broses nad oedd Cyllid Cymru yn debygol o feddu ar y sgiliau angenrheidiol i reoli'r Gronfa Gwyddorau Bywyd yn uniongyrchol.'

1.17 Yn ein barn ni, mae diffyg ymwneud llawn Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru ei hun ym mharatoi'r cyflwyniad Gweinidogol terfynol yn anodd i'w gyfiawnhau, o gofio bod y prosiect arfaethedig yn golygu buddsoddi £50 miliwn o arian cyhoeddus mewn trefniant gwasanaethau ariannol arloesol a chymhleth.

1.18 Ym Mehefin 2015, e-bostiodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru y Cyfarwyddwr Cyffredinol i egluro beth yn union oedd ymwneud ei swyddogion yn ystod y tri mis hyd at Fai 2012 yng nghyswllt y cynigion. Er na ddogfennwyd hyn ar y pryd, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol yn ei ebost fod ei swyddogion ef yn fodlon gyda'r cynigion ar y sail:

a 'mai arian cyhoeddus yn unig fydd yn y gronfa;

b y'i rheolir gan Reolwr y Gronfa wedi'i gaffael yn agored gan Cyllid Cymru;

c y gwneir penderfyniadau buddsoddi gan banel/pwyllgor buddsoddi;

ch ar lefel prosiect, y gwneir buddsoddiadau yn unol ag egwyddorion y farchnad, economi a buddsoddi (gydag agwedd MEIP[7] wedi ei hysgrifennu i mewn i gontractau rhwng Cyllid Cymru a Rheolwr y Gronfa a'r pwyllgor buddsoddi);

d y ceir cadarnhad ysgrifenedig rhwng Llywodraeth Cymru a Chyllid Cymru o'r trefniant a roddir ar waith.

1.19 Nodwn, fodd bynnag, fod dealltwriaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol mai arian cyhoeddus yn unig fyddai yn y Gronfa yn mynd yn groes i sylfaen weithredu'r Gronfa yn y pen draw a'r gofyniad contractaidd ar Reolwr y Gronfa i ddenu cyllid cyfatebol o'r sector preifat ar sail 'ymdrechion gorau' (gweler paragraff 2).

## Yr oedd rhai diffygion arwyddocaol yn y modd y gwnaeth Cyllid Cymru gaffael Rheolwr y Gronfa

1.20 Edrychodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar drefn caffael Rheolwr y Gronfa (Cyllid Cymru oedd yr awdurdod contractio). Hysbysebwyd y Gwahoddiad i Dendro (GiD) gan Cyllid Cymru dan y gweithdrefnau caffael Ewropeaidd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. Hefyd, nododd Cyllid Cymru 16 o fidwyr posib a thynnu eu sylw yn uniongyrchol at y GiD. Derbyniodd Cyllid Cymru bedwar mynegiant o ddiddordeb, ond derbyniwyd dau dendr yn unig. Yr oedd Cyllid Cymru wedi sefydlu Panel Caffael (gweler paragraff 1.6 a throednodyn 6) i werthuso'r tendrau. Amlygodd Adolygiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol nifer o wendidau rheoli yn y broses gaffael a ystyriodd y ddau dendr.

7 Hanfod yr egwyddor o fuddsoddi yn economi'r farchnad (MEIP) yw pan fo corff cyhoeddus yn buddsoddi mewn menter ar amodau a thelerau a fyddai'n dderbyniol i fuddsoddwr preifat yn gweithredu dan amodau arferol y farchnad, na fyddai'r buddsoddiad hwnnw yn gymorth gwladol.

1.21 Canfu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol na allodd y tendrwr llwyddiannus gydymffurfio â holl ofynion gorfodol y GiD am mai cwmni newydd ei ffurfio ydoedd. Digwyddodd hyn am nad oedd Cyllid Cymru wedi cynnal gwiriadau cyn-werthuso digonol ar y tendrau a dderbyniwyd, i sicrhau fod pob un ohonynt yn cydymffurfio â'r gofynion allweddol a fynnwyd gan y GiD. Tra bod y tendrwr aflwyddiannus wedi cwrdd â'r holl ofynion a fynnwyd, ni allodd y tendrwr llwyddiannus gwrdd â dau o'r gofynion a fynnwyd, sef:

a cyflwyno tair blynedd o gyfrifon wedi eu harchwilio; a

b dangos o leiaf £10 miliwn o 'gronfeydd dan reolaeth' ar gyfer pob un o'r tair blynedd flaenorol.

1.22 Nid oedd modd i'r tendrwr llwyddiannus gwrdd â'r naill na'r llall o'r gofynion hyn am iddo gael ei ymgorffori ryw ddeufis yn unig cyn y broses gaffael yn unswydd at bwrpas bidio, ac felly nid oedd ganddo record fel endid. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym, er gwaethaf sail gofyniad y GiD a osodwyd gan Cyllid Cymru, yn eu profiad hwy, nid yw'n anarferol i gwmni gael ei sefydlu i reoli cronfa gydag unigolion y cwmni, yn hytrach na'r endid, yn meddu ar y profiad o reoli cronfeydd.

1.23 Yn ychwanegol at y sylwadau hyn, dywedodd swyddogion Cyllid Cymru wrthym fod y diffygion yng nghaffael rheolwr i'r gronfa wedi codi oherwydd na sylweddolwyd yn llawn yr anghenion caffael ar y cychwyn, a llunio'r GiD yn unol â hynny. Nodwn fod y GiD wedi ei baratoi gan Cyllid Cymru gyda chyfraniadau gan swyddogion Llywodraeth Cymru, iddo gael ei baratoi mewn da bryd a'i fod hefyd yn destun gwiriadau diwydrwydd dyladwy mewnol. Yr ydym yn synnu felly fod y diffygion hyn yn y GiD terfynol.

1.24 Canfu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd na werthuswyd y ddau dendr ar sail tebyg-am-debyg wrth gymharu costiadau eu ffioedd rheoli. Tra bod y tendrwr aflwyddiannus wedi defnyddio'r rhagdyb o gronfa o £25 miliwn a ragnodwyd yn y GiD, yr oedd y tendrwr llwyddiannus wedi defnyddio rhagdyb uwch o gronfa o £50 miliwn. Wrth werthuso'r ddau dendr, methodd y Panel a gwneud addasiad am ragdyb gwahanol y tendrwr llwyddiannus er mwyn sicrhau y byddid yn cymharu tebyg â thebyg[8].

1.25 Daeth dau adolygiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol (a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru a Cyllid Cymru) ar wahân i'r casgliad nad oedd y diffygion hyn yn rhifyddol berthnasol ym mhenderfyniad terfynol y Panel Caffael, oherwydd na fuasai'r canlyniad a'r deilliant terfynol wedi newid. Nid oeddent yn rhifyddol berthnasol oherwydd bod strwythur cost arfaethedig y naill dendr a'r llall am reoli'r gronfa yn cyfrif am uchafswm o 40 pwynt yn unig (rhyw 13 y cant) o uchafswm sgôr gwerthuso cyffredinol y tendr o 310 pwynt. Fe wnaethom gymharu hyn â thri o brosesau tendro rheoli cronfeydd eraill a wnaed gan Cyllid Cymru, a chanfod mai'r cydrannau canran cost am bob un oedd 10 y cant, 30 y cant a 50 y cant. Yr oedd

8 Yr oedd y tendrwr llwyddiannus hefyd wedi cynnwys costau sefydlu yn ei gyflwyniad tendr, seiliedig ar yr union gostau a ddeuai i'w ran fyddai'n cael eu capio ar un y cant o arian a ymrwymwyd (h.y., hyd at uchafswm o £500,000, seiliedig ar ragdybiaeth o gronfa o £50 miliwn). Yr oedd gwerthusiad y Panel wedi gadael y costau sefydlu hyn allan o'i ystyriaeth, ac hynny'n iawn, oherwydd bod costau o'r fath y tu allan i gwmpas y GiD. Fodd bynnag, cafodd ffî sefydlu o £500,000 ei chynnwys wedi hynny gan Cyllid Cymru yng nghontractau y tendrwr llwyddiannus, ac nid oes esboniad am hyn. Caiff hyn ei ystyried yn fanylach ym in **mharagraffau 1.37 i 1.41**.

penderfyniad Cyllid Cymru i neilltuo dim ond 13 y cant o gyfanswm y sgôr i elfen gost y gwerthusiad hwn o dendr rheoli'r gronfa felly yn ei osod ar begwn is yr ystod hon.

1.26 Nododd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd ddogfennaeth wael ac anghyflawn yr asesiadau tendr unigol gan aelodau'r Panel (ar wahan i'r sgoriau a ddyfarnwyd gan bob un ohonynt). Yn benodol, gwelsant ddiffyg dogfennaeth am unrhyw drafodaethau rhwng aelodau i gadarnhau bod rhai o'r sgoriau unigol tra gwahanol a gofnodwyd (er enghraifft, parthed eu barn dra gwahanol am record y cwmnïau oedd yn bidio) wedi bod yn destun ymchwil ac wedi eu herio, gan ddangos trwy hynny sut y daethpwyd at sgôr gyffredinol gytunedig ar gyfer pob tendrwr.

1.27 Gwelodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol fod y gwiriadau diwydrwydd dyladwy ariannol gan Cyllid Cymru yn amherthnasol gan iddynt gael eu cynnal ym mis Chwefror 2013 ar gwmni gwahanol[9]; ac am gyfrifon un flwyddyn y cwmni hwnnw yn unig (sef y flwyddyn i 31 Mawrth 2011, oherwydd diffyg cyfrifon mwy diweddar). Hefyd, cynhaliwyd y broses wirio diwydrwydd dyladwy hwn ryw bedwar mis wedi hysbysu'r tendrwr llwyddiannus o ganlyniad y broses. Yn ein barn ni, yr oedd y camau hyn yn amlwg yn wallus, i'r graddau nad oedd cyfrifon y cwmni yn berthnasol i fusnes y tendrwr llwyddiannus a, hyd yn oed petaent wedi bod yn berthnasol, fe'u hadolygwyd yn rhy hwyr o lawer yn y broses.

1.28 Canfu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol fod y Panel Caffael wedi methu â sefydlu (trwy wiriadau diwydrwydd dyladwy sylfaenol) nad oedd y rhan fwyaf[10] o'r 'Cyfarwyddwyr' a enwyd yn y tendr llwyddiannus mewn gwirionedd yn Gyfarwyddwyr y cwmni ar ddyddiad cyflwyno'r tendr. Yn ddiweddarach y gwnaed y penodiadau hyn. Dywedodd Rheolwr y Gronfa wrthym y gwnaed yn glir i Cyllid Cymru adeg y bid y byddai'n penodi'r rhan fwyaf o'r Cyfarwyddwyr a enwyd yn y tendr yn unig petai'n llwyddiannus; ac nad oedd y bwriad hwn yn syndod o gofio bod y cwmni wedi ei ffurfio o'r newydd yn unswydd ar gyfer y Gronfa.

1.29 Ymhellach i ganfyddiadau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol, canfuom fod y GiD a chaffael rheolwr i'r gronfa wedi hynny fel ei gilydd wedi methu ag ystyried a gwerthuso'r posibilrwydd o unrhyw ffioedd trefnu (neu debyg) y gallai'r cwmnïau bidio fwriadu eu codi ar gwmni fyddai'n buddsoddi; ac nad oedd y naill na'r llall o'r tendrau wedi cynnwys darpariaeth ar gyfer codi unrhyw ffioedd o'r fath. Ymdrinnir â ffioedd o'r math hwn, sydd, yn ôl a ddeallwn, yn arfer safonol yn y diwydiant i'r farchnad ecwiti preifat, ym mharagraffau 1.83 i 1.93.

1.30 O ystyried y canfyddiadau uchod, yn ein barn ni yr oedd diffygion arwyddocaol yng nghaffael Rheolwr y Gronfa gan Cyllid Cymru. Cododd Adolygiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol nifer o argymhellion yn y maes hwn sydd wedi eu gosod allan yn Atodiad 2, ynghyd ag ymatebion y rheolwyr iddynt.

9 Cynaliwyd y gwiriadau diwydrwydd dyladwy yn Chwefror 2013 ar gyfrifon archwiliedig 2010-11 Excalibur Group Holdings Ltd, cwmni heb berthynas ag Arthurian (er mai Syr Christopher Evans oedd perchennog y cwmni hwnnw hefyd).

10 Nid oedd wyth allan o'r 10 Cyfarwyddwr honedig wedi eu cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau tan 1 Gorffennaf 2013, tua deg mis wedi cwblhau'r broses gaffael a thua pedwar mis wedi arwyddo contractau Rheolwr y Gronfa.

## Ni all Llywodraeth Cymru na Chyllid Cymru roi cyfiawnhad digonol dros grynswth eu taliadau i'r tendrwr llwyddiannus dan y trefniadau interim

1.31 Er i Cyllid Cymru hysbysu'r tendrwr llwyddiannus ar 27 Medi 2012 (gyda'r 'cyfnod segur' sy'n ofyniad cyfreithiol yn dod i ben ar 8 Hydref 2012) o'r canlyniad, ni allai'r cwmni ddechrau rheoli'r Gronfa hyd nes iddo yn gyntaf gael ei awdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Yr oedd yr awdurdodi hwn yn hanfodol gan y byddai Rheolwr y Gronfa yn cynnal gweithgareddau oedd yn cael eu rheoleiddio gan yr AYA. Cafodd y tendrwr llwyddiannus awdurdod yr AYA ar 16 Ionawr 2013. Fodd bynnag, nid oedd y contract gyda Cyllid Cymru yn barod i'w lofnodi tan 28 Chwefror 2013.

1.32 Ar 31 Hydref 2012, gosododd Cyllid Cymru felly Gytundeb Rheoli'r Gronfa dros dro mewn lle fel y gallai Cyllid Cymru ei hun redeg y Gronfa. Daeth y Cytundeb dros dro hwn i ben ar 28 Chwefror 2013, unwaith i'r tendrwr llwyddiannus lofnodi ei gontractau.

1.33 Yr oedd y Cytundeb dros dro rhwng dau o is-gwmnïau Cyllid Cymru; y rhain oedd Buddsoddiadau Cyllid Cymru (9) Cyf (BCC 9) a Buddsoddiadau Cyllid Cymru Cyf. (BCC). Gweithredodd BCC fel Rheolwr y Gronfa dros dro. Crëwyd y trefniadau hyn yn unig at ddibenion y Gronfa, cyn i'r tendrwr llwyddiannus gael awdurdod yr AYA a llofnodi ei gontractau. Dywedodd y cytundeb mai BCC oedd yn gyfrifol am adnabod a gwerthuso cyfleoedd am fuddsoddi, a monitro portffolio'r cyfryw fuddsoddiadau. Byddai argymhellion BCC yn cael eu hystyried gan Bwyllgor Buddsoddi BCC 9, fyddai'n rhoi her annibynnol ac yn craffu ar gynnig buddsoddiad cyn ei gymeradwyo neu ei wrthod. Tri Aelod â phleidlais oedd ar y Pwyllgor Buddsoddi; sef Cyfarwyddwr o Gyllid Cymru a dau o Gyfarwyddwyr y tendrwr llwyddiannus. (Nid oedd y tendrwr llwyddiannus, fel endid, yn rhan o'r Cytundeb dros dro.)

1.34 Am y cyfnod 31 Hydref 2012 hyd at 28 Chwefror 2013, dan delerau'r Cytundeb dros dro, ystyriodd Pwyllgor Buddsoddi BCC 9 un cais yn unig am fuddsoddi. Yr oedd a wnelo hwn â chwmni gwyddorau bywyd lle'r oedd y Papur Cynnig Buddsoddi (PCB) yn argymell buddsoddiad o £1 miliwn o'r Gronfa. Yn eu cyfarfod ar 30 Ionawr 2013, cymeradwyodd y Pwyllgor Buddsoddi y buddsoddiad hwn. Fodd bynnag, wedi hynny, gwrthododd y cwmni'r cynnig o fuddsoddiad.

1.35 Rhwng Hydref 2012 ac Ebrill 2013 gwnaeth Llywodraeth Cymru a Chyllid Cymru fel ei gilydd daliadau 'interim' i'r tendrwr llwyddiannus, ac y mae manylion y rhain yn Atodiad 1. Nid oedd y taliadau interim yn dod dan gontractau rheoli'r gronfa a lofnodwyd gan Cyllid Cymru a Rheolwr y Gronfa ar 28 Chwefror 2013. Dyma oeddent:

a ffî o £500,000 am gostau sefydlu (darparwyd fel benthyciad yn ystod y cyfnod interim);

b talu ffioedd yn lle'r ffioedd rheoli (oedd eto i'w contractio); a

c benthyciad o £260,000 i helpu gyda llif arian.

1.36 Mae canlyniadau ystyried y taliadau hyn ymhellach gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi eu gosod allan isod.

## Talwyd costau sefydlu o £500,000 fel un ffî, nas dogfennwyd ei sail gan Cyllid Cymru ac na allai ei swyddogion esbonio

1.37 Er nad oedd costau sefydlu yn rhan o'r GiD (gweler paragraff 1.24 a throednodyn 8), yr oedd y tendrwr llwyddiannus wedi cynnwys darpariaeth ar eu cyfer yn eu tendr am eu bod yn ystyried mai dyma oedd arfer safonol y farchnad, gan gynnig y dylai'r rhain fod yn seiliedig ar yr union gostau y daethpwyd i'w rhan gyda chap wedi ei osod ar un y cant o'r arian a ymrwymwyd o £50 miliwn (h.y., hyd at uchafswm o £500,000). Nid oedd y cwmni bidio arall wedi cynnwys costau o'r fath yn eu tendr. Dywedodd y tendrwr llwyddiannus wrthym eu bod yn ystyried i'w bwriad gael ei ddatgan yn glir yn eu cyflwyniad tendr a oedd, yn eu barn hwy, yn seiliedig ar un ffî o £500,000, neu un y cant o faint y Gronfa. Rhoes Rheolwr y Gronfa dystiolaeth i ni i ategu eu honiad mai'r gyfradd ganrannol hon oedd yr arfer safonol yn y farchnad.

1.38 Yr oedd y contractau a lofnodwyd ar 28 Chwefror 2013 yn darparu am dalu un ffî i Reolwr y Gronfa o £500,000 yng nghyswllt eu costau sefydlu. Ni wnaeth Cyllid Cymru ddogfennu, na llwyddo i esbonio i ni, y canlynol:

a eu rhesymeg dros gytuno i gynnwys ffî sefydlu yn y contract;

b pam eu bod yn ystyried bod ffî sefydlu o £500,000 yn briodol; a

c pam y cytunodd i dalu un ffî, yn hytrach na derbyn cynnig y tendrwr llwyddiannus o ad-dalu'r union gostau (wedi eu capio) a ddaeth i'w rhan.

1.39 Toc wedi hysbysu'r tendrwr llwyddiannus (yn Hydref 2012) o ganlyniad y tendr, gofynnodd y cwmni am daliad o £500,000 am eu costau sefydlu. Gwrthododd Cyllid Cymru y cais hwn am nad oedd bryd hynny unrhyw sail contractaidd i daliad o'r fath. Fodd bynnag, fe wnaeth Cyllid Cymru gytuno i roi benthyciad i'r tendrwr llwyddiannus o £480,000 ar delerau masnachol, yn lle'r costau sefydlu y rhagwelodd Cyllid Cymru y buasent yn dalu unwaith i'r tendrwr llwyddiannus gael awdurdod yr AYA ac iddynt lofnodi eu contractau. Ar y sail hon, ar 13 Tachwedd 2012 rhoes Cyllid Cymru fenthyg £480,000 i'r tendrwr llwyddiannus.

1.40 Wedi hynny, pan lofnodwyd contractau rheolwr y gronfa ar 28 Chwefror 2013, gosodwyd y £500,000 oedd erbyn hynny yn ddyledus i Reolwr y Gronfa yn erbyn ad-daliad o'r benthyciad o £480,000 ynghyd â'r llog o £10,641 a godwyd gan Cyllid Cymru ar eu benthyciad o £480,000 benthyciad (gweler Atodiad 1).

1.41 Yr oedd y benthyciad hwn wedi gadael Cyllid Cymru yn agored i risg o ddrwg-dalu, pe digwyddai i'r tendrwr llwyddiannus wedyn beidio â chael contract Rheolwr y Gronfa (senario allasai fod wedi codi pe na bai'r cwmni wedi sicrhau awdurdod yr AYA).Er bod y benthyciad wedi ei sicrhau ar asedau'r tendrwr llwyddiannus, awgryma eu cyfrifon a archwiliwyd hyd at 31 Mawrth 2013 nad oedd gan y cwmni ddigon o asedau sefydlog net i gefnogi ad-dalu'r benthyciad, petai hynny wedi

bod yn angenrheidiol. Fodd bynnag, barnodd swyddogion Cyllid Cymru fod y posibilrwydd na fyddai'r tendrwr llwyddiannus yn cael awdurdod yr AYA yn isel iawn. Dywedodd Rheolwr y Gronfa wrthym eu bod wedi cynnig sicrwydd i Gyllid Cymru ar ffurf eu cronfa ddata llif-deliau (deal flow database) a fuasai wedi bod o les i reolwr cronfa arall, ac i Cyllid Cymru.

## Gwnaed taliadau interim, yn lle'r ffioedd rheoli yn y contract a oedd, er gwaethaf diffyg achrediad yr AYA, yn seiliedig yn agos iawn ar y 2.5 y cant o arian ymrwymedig fuasai yn eu lle petai'r contractau wedi eu llofnodi pryd y bwriadwyd yn wreiddiol

1.42 Yn ystod cyfnod y trefniadau interim (Hydref 2012 i 28 Chwefror 2013), derbyniodd y tendrwr llwyddiannus daliadau gan Cyllid Cymru a Llywodraeth Cymru oedd yn agos o ran cyfanswm eu gwerth i 2.5 y cant o ymrwymiad o £50 miliwn[11]. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym eu bod yn fodlon i dalu ffioedd rheoli ar sail cronfa o £50 miliwn yn ystod y cyfnod interim er mwyn cynnal tîm a allai reoli cronfa o'r math yma.

1.43 Talodd Cyllid Cymru £207,600 i'r tendrwr llwyddiannus (sef £173,000 a dalwyd yn Hydref 2012, ynghyd â TAW a dalwyd yn Chwefror 2013) parthed gweithgaredd diwydrwydd dyladwy am ddeliau oedd ar y gweill ar 31 Hydref 2012. Yr oedd gwerth y taliad hwn yn cyfateb i uchafswm y ffî rheoli taladwy dan yr amgylchiadau, yn ôl cyngor cyfreithiol a gafwyd gan Cyllid Cymru.

1.44 Wedi gwneud taliad o'r £207,600 a'r benthyciad o £480,000, penderfynodd Bwrdd Cyllid Cymru na fuasent yn cymeradwyo unrhyw daliadau pellach i'r tendrwr llwyddiannus heb gadarnhad Gweinidogol gan Lywodraeth Cymru. Ar 11 Ionawr 2013 gosodwyd rhesymau'r Bwrdd allan yn ffurfiol i Gyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Cymru dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (fel y Swyddog Cyfrifyddu cyfrifol), gan Gyfarwyddwr Grŵp Buddsoddi Cyllid Cymru.

1.45 Ni dderbyniodd Cyllid Cymru y cadarnhad Gweinidogol y gofynnwyd amdano a phenderfynodd Llywodraeth Cymru yn hytrach dalu'r tendrwr llwyddiannus yn uniongyrchol. Ymhellach i daliadau Cyllid Cymru, talodd Llywodraeth Cymru ei hun £370,800 i'r tendrwr llwyddiannus, a oedd yn eu golwg hwy yn cyfateb yn agos iawn i dri mis o ffioedd trefnu ar sail 2.5 y cant o £50 miliwn o arian a ymrwymwyd. Yr ydym yn deall fod y taliadau hyn wedi eu gwneud i'r tendrwr llwyddiannus i dalu am gostau gwaith ar fuddsoddiadau posib gan y Gronfa, a adwaenir gan swyddogion Llywodraeth Cymru fel 'deliau ar y gweill'.

1.46 Tra bod y taliadau interim hyn wedi eu gwneud i'r tendrwr llwyddiannus gan Cyllid Cymru a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd, nid oedd gan y tendrwr llwyddiannus unrhyw swyddogaeth gontractaidd tan 28 Chwefror 2013 pryd y llofnodwyd eu contractau. (mae paragraff 1.31 yn cyfeirio at hyn). Dengys Atodiad 1 fod y taliadau i'r tendrwr llwyddiannus ond ryw £32,000 yn llai nag y buasai'r cwmni wedi ei dderbyn, petai contract Rheolwr y Gronfa wedi ei lofnodi pryd y bwriadwyd yn wreiddiol (ar sail arian ymrwymedig o £50 miliwn). Ni allai Llywodraeth Cymru na Chyllid Cymru esbonio'r canlynol er boddhad i ni:

11 Yr oedd yr arian a ymrwymwyd yn £25 miliwn tan 25 Chwefror 2013 (dridiau cyn llofnodi contract Rheolwr y Gronfa). Ar 25 Chwefror, cynyddodd Llywodraeth Cymru swm yr arian a ymrwymwyd ganddynt i £50 miliwn.

a y rhesymau dros grynswth eu taliadau i'r tendrwr llwyddiannus dan y trefniadau interim; na

b pan na wnaed unrhyw ddidyniadau i ganiatáu am y ffaith na allai'r tendrwr llwyddiannus yn gyfreithiol yn ystod y cyfnod hwnnw berfformio un o swyddogaethau allweddol rheolwr cronfa (ymgymryd â gweithgareddau buddsoddi sy'n cael eu rheoleiddio gan yr AYA).

1.47 Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym y bu achos cryf dros fwrw ymlaen ar y sail hon, oherwydd yn eu barn hwy fod y rheswm dros y gwahanol daliadau interim wedi digwydd trwy ddigwyddiadau na allai Llywodraeth Cymru ragweld ac na ellid eu priodoli iddynt. Esboniodd y swyddogion eu bod wedi barnu y gallai peidio â thalu'r symiau hyn i'r tendrwr llwyddiannus fod wedi (i) oedi ecsploetio'r Gronfa; (ii) risgio colli dilyniant gyda chynhyrchu 'blaen-syniadau'; ac (iii) oedi gweithredu'r Hwb Gwyddorau Bywyd arfaethedig[12]. Pwysleisiodd y swyddogion hefyd eu hasesiad o golli gweithgaredd cysylltiadau cyhoeddus a hybu yng nghyswllt y sector gwyddorau bywyd yng Nghymru, a hefyd eu hangen i liniaru'r risg naill ai na fyddai'r contract yn bwrw ymlaen o gwbl, neu y byddai o raid yn cael ei oedi trwy ail-gaffael.

## Ni allodd Llywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth i gefnogi naill ai sail gwerth na thelerau eu benthyciad yn Ebrill 2013 o £260,000 i Reolwr y Gronfa

1.48 Yn Ebrill 2013, gwnaeth Llywodraeth Cymru fenthyciad o £260,000 i Reolwr y Gronfa i dalu am eu llif arian. Cafodd y benthyciad 'wyliau' cyfalaf a llog o 27 mis hyd at fis Gorffennaf 2015, ac wedi hynny gyfradd llog o 8.5 y cant dros y 16 chwarter dilynol tan fis Tachwedd 2019.

1.49 Dywedodd y cyflwyniad Gweinidogol yn sgil hynny mai bwriad y benthyciad oedd adlewyrchu'r sefyllfa arian fuasai wedi ei ragweld petai trefniadau Rheolwr y Gronfa wedi gweithredu fel y bwriadwyd o'r cychwyn. Cofnododd detholion o'r cyflwyniad Gweinidogol fod:

a ALS [Arthurian] wedi llwyddo i ennill y tendr i redeg y Gronfa yn Hydref 2012, ond golygodd trafodaethau contractaidd a'r ffaith nad oedd ALS wedi cofrestru gyda'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol [yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol bellach] na lofnodwyd contractau rheoli'r gronfa tan 28 Chwefror 2013. Golygodd hyn na allodd ALS gymryd unrhyw ffioedd rheoli'r gronfa gan Gyllid Cymru dan y contract dros y cyfnod hwn.

b 'Ymhellach i ddatblygu cyfleoedd oedd ar y gweill, yr oedd angen i ALS hefyd ddenu hyd at £50 miliwn o gefnogaeth gan fuddsoddwyr y sector preifat i gyd-fuddsoddi yn y gronfa gwyddorau bywyd [o eiddo Llywodraeth Cymru] a bydd hyn yn dibynnu ar effeithiolrwydd ALS a chadernid eu sefyllfa ariannol.'

12 Ym Mae Caerdydd y mae Hwb y Gwyddorau Bywyd. Mae eu gwefan yn esbonio mai dyma ganolbwynt y sector gwyddorau bywyd yng Nghymru, sydd yn ceisio symbylu rhyngweithio, arloesedd, rhwydweithio a chydweithio. Mae mwy o fanylion ar **wefan Hwb y Gwyddorau Bywyd**.

1.50 A derbyn bod y contract yn ei le o 28 Chwefror 2013, rhyw ddeufis cyn caniatáu'r benthyciad, mae'n anodd deall pam y byddai angen benthyciad at ddibenion llif arian trwodd at ddiwedd 2016. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod Rheolwr y Gronfa wedi dweud wrthynt hwy fod angen y benthyciad i gael cefnogaeth buddsoddwyr y sector preifat, ac nad oedd ganddynt unrhyw dystiolaeth i wrthbrofi hyn. Fodd bynnag, ni allodd Llywodraeth Cymru roi unrhyw dystiolaeth i ni i gefnogi sail y cyfrifyddu o £260,000 a roddwyd ar fenthyg.

1.51 Dywedodd Rheolwr y Gronfa wrthym eu bod yn ystyried i'r benthyciad fod wedi cael ei ddarparu ar sail fasnachol ac iddo gael ei ddarparu am waith a wnaed yn ystod y cyfnod interim cyn llofnodi'r contractau; ar gyfer sefydlu a dogfennu'r gronfa; llunio cronfa ddata llif-deliau o fuddsoddiadau posib; gwerthuso cyfleoedd; marchnata'r gronfa; ac ymdrechion cychwynnol i godi asedau. Dywedasant wrthym hefyd fod hyn er mwyn gofalu bod gweithgaredd rheoli'r gronfa yn mynd rhagddo, nid o'r amser y llofnodwyd y contractau, ond o'r amser y dyfarnwyd y mandad, er lles Llywodraeth Cymru, y Sector Gwyddorau Bywyd, a Chymru.

1.52 Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym, er na ddogfennwyd hyn, mai un o'r rhesymau dros y benthyciad oedd, oherwydd yr oedi cyn cychwyn y contract, na allodd Rheolwr y Gronfa gasglu unrhyw ffioedd trefnu trwy fuddsoddiadau a gymeradwywyd.

1.53 Cofnododd y cyflwyniad Gweinidogol nad oedd unrhyw faterion newydd na dadleuol yn codi parthed y benthyciad ac felly nad oedd angen clirio'r cyflwyniad gyda'r Uned Llywodraethiant Corfforaethol. Fodd bynnag, yr oedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ceisio barn y Pennaeth Llywodraethiant a Sicrwydd Corfforaethol, oedd yn fodlon i gyflwyniad i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gael ei gyflwyno am ei fod yn ystyried ei fod yn amlygu'r prif fanteision, risgiau a gweithredoedd lliniaru. Nodwn y gellid ymdrin ag unrhyw risg i Lywodraeth Cymru o ddrwg-dalu ar ad-daliad yn rhwydd trwy ostyngiad cymesurol yn y ffî fisol am reoli'r gronfa a dalwyd gan Cyllid Cymru. Fodd bynnag, dechreuodd yr ad-daliadau yn ôl yr amserlen yng Ngorffennaf 2015 gyda'r taliad olaf yn ddyledus i Lywodraeth Cymru yn 2019.

## Nid oedd y trefniadau arolygu a osodwyd gan Gyllid Cymru yn ddigon cadarn, ac o ganlyniad ni chafodd un agwedd o'r buddsoddiad yn ReNeuron Plc ei drin yn unol â chontractau Rheoli'r Gronfa

1.54 Ym mis Ebrill 2013, gwnaeth y Gronfa ei buddsoddiad cyntaf, o £750,000, yn Simbec Ltd. Yr ydym wedi archwilio'r buddsoddiad hwn ac yn fodlon iddo gael ei reoli'n briodol gan bawb oedd yn rhan o'r peth. Gwnawn fwy o sylwadau ynghylch y ffioedd trefnu cysylltiedig â'r buddsoddiad hwn ym mharagraffau 1.83 i 1.93.

1.55 Yr ail fuddsoddiad a wnaed gan y Gronfa oedd yn ReNeuron Plc (ReNeuron),cwmni a  restrwyd ar Farchnad Fuddsoddiadau Amgen (AIM) y Gyfnewidfa Stoc oedd yn ceisio chwistrelliad sylweddol o arian o amrywiaeth o ffynonellau. Ystyriodd Pwyllgor Buddsoddiadau Rheolwr y Gronfa y buddsoddiad a'i gymeradwyo ar 26 Mehefin 2013. Mae cofnodion y cyfarfod yn nodi fod gan dri o'r mynychwyr wrthdrawiadau buddiannau ac y buasent felly yn ymatal rhag pleidleisio. Cofnododd y cofnodion hefyd nad oedd Syr Christopher Evans yn y cyfarfod am fod ganddo wrthdrawiad buddiannau oherwydd ei fod eisoes wedi rhoi barn i Lywodraeth Cymru ynghylch dyfarnu grant neu beidio i ReNeuron (gweler paragraff 1.66).

1.56 Er bod gan Reolwr y Gronfa annibyniaeth o ran dewis ac ystyried cynigion buddsoddi, rhwymedigaeth contractaidd sylfaenol bwysig (a thrwy hynny yn un a gydnabyddir yn eglur) yw bod yn rhaid i Reolwr y Gronfa hysbysu Cyllid Cymru o unrhyw wrthdrawiadau buddiannau cyn yr ymrwymiad i fuddsoddi a thynnu lawr arian y Gronfa wedi hynny. Fodd bynnag, canfuom na wnaeth Rheolwr y Gronfa hysbysu Cyllid Cymru o'r gwrthdrawiadau oedd yn bodoli yn y cwmni yng nghyswllt buddsoddiad ReNeuron hyd nes i ni dynnu sylw Cyllid Cymru atynt o ganlyniad i'n harchwiliad, a'r adeg hon, ceisiodd eu swyddogion eglurhad gan Reolwr y Gronfa.

1.57 Ar wahân, yr oedd Syr Christopher Evans yn briodol wedi datgelu ei fuddsoddiad preifat yn ReNeuron i Lywodraeth Cymru oherwydd bod Llywodraeth Cymru ar fin mantoli cais am gymorth ariannol gan ReNeuron (gweler paragraffau 1.63 i 1.67). Ni wnaeth swyddogion Llywodraeth Cymru anfon y datgeliad hwn ymlaen at Cyllid Cymru eu hunain am eu bod wedi disgwyl i Reolwr y Gronfa wneud datgeliad ar wahân (yn ôl gofyniad y contract) i Cyllid Cymru o unrhyw wrthdrawiadau cysylltiedig â ReNeuron. Er bod Rheolwr y Gronfa wedi ein bodloni fod pob gwrthdrawiad wedi ei ddatgelu yn briodol dan eu polisïau mewnol eu hunain, dywedasant wrthym mai dim ond ail fuddsoddiad y Gronfa oedd hwn a bod manylion llif y wybodaeth i Gyllid Cymru yn dal i gael eu mireinio.

1.58 Fe wnaethom ganfod fod Cyllid Cymru a Rheolwr y Gronfa ym mis Ionawr 2015 wedi cyflwyno gwell 'ffurflen gais am fuddsoddiad' sydd yn cynnwys yr holl fanylion perthnasol a rhai sydd eu hangen dan y contract. Deallwn fod y ffurflen ddiwygiedig hon wedi ei defnyddio ers seithfed buddsoddiad y Gronfa.

1.59 Nid oedd prosesau mewnol Cyllid Cymru yn mynnu bod eu swyddogion yn cynnal gwiriadau i weld a oedd union drefniadau llywodraethiant Rheolwr y Gronfa ar gyfer y Gronfa yn cydymffurfio â'r gofynion contractaidd o ran trin gwrthdrawiadau. Cadarnhaodd Cyllid Cymru wrthym na chynhaliwyd gwiriadau o'r fath gan fod gan Reolwr y Gronfa gryn annibyniaeth dan delerau'r contract, a'u bod wedi rhagdybio y byddai Rheolwr y Gronfa yn cydymffurfio â'r holl delerau a osodwyd. Yn ein barn ni, methodd trefniadau rheoli contract Cyllid Cymru ddarparu arolygiaeth a gwiriadau digonol ar fuddsoddiadau y ceisiodd Rheolwr y Gronfa arian buddsoddi o'r Gronfa ar eu cyfer.

1.60 Pan sylweddolodd Cyllid Cymru (o ganlyniad uniongyrchol i'n hadolygiad archwilio) nad oedd Rheolwr y Gronfa wedi adrodd am eu gwrthdrawiadau yn achos ReNeuron yn ôl y gofyn, gyrrwyd e-bost gan Gyfarwyddwr Buddsoddi'r Grŵp at Brif Weithredwr Rheolwr y Gronfa yn ei atgoffa o ymrwymiadau contractaidd Rheolwr y Gronfa i Cyllid Cymru o ran trin a hysbysu am wrthdrawiadau.

1.61 Nodwn hefyd, tra bod Pwyllgor Buddsoddiadau Rheolwr y Gronfa wedi cymeradwyo ar 26 Mehefin 2013 fuddsoddiad o £4 miliwn yn ReNeuron, fod y Gronfa wedi hynny wedi buddsoddi cyfanswm o £5 miliwn yn y cwmni a dynnwyd o arian Cyllid Cymru ar 6 Awst 2013. Ni roddodd Rheolwr y Gronfa unrhyw dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r cynnydd hwn (megis cofnodion y Pwyllgor Buddsoddiadau wedi hynny), ond fe ddywedasant wrthym y cynyddwyd y buddsoddiad i gynnal cyfran ganrannol y Gronfa, oherwydd i leoliad cyfranddaliadau ReNeuron fod yn llwyddiannus iawn. Petai'r trefniadau rheoli contract Cyllid Cymru wedi bod yn gryfach, buasem wedi disgwyl i'r newid hwn yng ngwerth y buddsoddiad gael ei gwestiynu gan Cyllid Cymru ar y pryd.

1.62 Nid oes gan Swyddfa Archwilio Cymru arbenigedd mewnol ynghylch Rheolau'r Farchnad Fuddsoddiadau Amgen (AIM) i Gwmnïau. Felly, er mwyn cael sail o wybodaeth i adolygiad ein harchwiliad, fe wnaethom gomisiynu arbenigedd gan Grant Thornton LLP i adolygu buddsoddiad y Gronfa yn 2013 yn ReNeuron. Nododd Grant Thornton nifer fechan o wallau adrodd AIM posib, ond yn eu barn hwy, nid oedd yr un ohonynt yn berthnasol i'w hadolygiad. Wedi cwblhau eu gwaith, medrodd Grant Thornton gadarnhau wrth Swyddfa Archwilio Cymru, ar wahan i wallau adrodd posib nad oeddent yn berthnasol, nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw doriadau posib ar Reolau AIM na chyfreithiau neu reoliadau posib eraill oedd yn berthnasol i'w hadolygiad.

## Ochr yn ochr â buddsoddiad y Gronfa yn ReNeuron Plc, nid oedd y ffaith i Lywodraeth Cymru ddyfarnu cymorth ariannol mewn egwyddor i ReNeuron yn cydymffurfio â'u prosesau busnes arferol, ac nid oes modd cadarnhau a wnaeth drin yn briodol â gwrthdrawiad buddiannau clir a ddatganwyd iddynt

### Efallai nad oedd Llywodraeth Cymru wedi trin yn briodol wrthdrawiad buddiannau a ddatganwyd

1.63 Edrychodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i mewn i'r trefniadau llywodraethiant a gymhwyswyd gan Lywodraeth Cymru wrth ddyfarnu cymorth ariannol, sef cyfanswm o £7.8 miliwn i ReNeuron (gweler paragraffau 1.68 i 1.78), oedd ar wahân i fuddsoddiad y Gronfa o £5 miliwn.

1.64 Canfuwyd fod y Pennaeth Cydymffurfio yn Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi rhoi cyngor cadarn a chlir ar drin y gwrthdrawiad a ddatganwyd gan Syr Christopher Evans parthed buddiant ariannol oedd ganddo yn ReNeuron[13]. Cyngor y Pennaeth Cydymffurfio oedd y dylid eithrio Syr Christopher Evans o'r broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â darparu cefnogaeth bosib i ReNeuron a rhoddodd wybod hynny i swyddogion perthnasol yr Adran.

1.65 Er gwaethaf y cyngor clir hwn, yn ystod y cyfnod pan oedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystyried rhoi arian i ReNeuron, dengys cofnodion Llywodraeth Cymru fod swyddogion mewn cyswllt rheolaidd â Syr Christopher Evans trwy ebost a chyfarfodydd. Er nad oedd y cyfarfodydd hyn yn wastad wedi eu dogfennu gan swyddogion Llywodraeth Cymru, dywedasant yn bendant wrthym trwy gydol ein hastudiaeth nad oes unrhyw dystiolaeth i unrhyw gyswllt gael dylanwad arwyddocaol ar unrhyw benderfyniadau a wnaed.

1.66 Ymhellach i gofnodion Llywodraeth Cymru, dyma ddywed cofnodion cyfarfod Pwyllgor Buddsoddi Rheolwr y Gronfa ar 26 Mehefin 2013 (gweler paragraff 1.55):

> 'Gofynnwyd i'r Athro Syr Chris Evans, yn rhinwedd ei swydd fel ymgynghorydd ar Wyddorau Bywyd i Lywodraeth Cymru (LlC) roi barn ar y cwmni [ReNeuron] fel y gallai LlC ddod i benderfyniad ynghylch dyfarnu grant i'r cwmni yn ystod proses ddiweddar o ymgeisio am grant. O'r herwydd, teimla ef [Syr Chris Evans] gan ei fod wedi cynghori[14] LlC ar un agwedd, y dylai ymneilltuo o bob trafodaeth ar fuddsoddiad gan y Gronfa ac ni fydd yn bresennol yn y cyfarfod, yn cyfrannu at drafodaethau, yn gwneud argymhellion nac yn pleidleisio ar y mater.'

1.67 Awgrymodd Llywodraeth Cymru i ni y rhesymeg a ganlyn i gysoni'r safbwyntiau hyn sydd i bob golwg yn wrthgyferbyniol: er y gallai Syr Christopher Evans fod wedi teimlo yn ddidwyll ei fod wedi cynnig 'cyngor' i Lywodraeth Cymru ynghylch dyfarnu'r grant i'r cwmni (a'i fod felly yn teimlo mai priodol fyddai ymneilltuo o

13 Excalibur Group Holdings Ltd, a reolir gan Syr Christopher Evans, yw perchennog (ond nid rheolwr) Partner Cyffredinol Merlin Biosciences Fund LP a Gbr (MBF), cronfa mewn diddymiad (in liquidation) ers Chwefror 2012. Ym Mehefin 2013 roedd gan MBF, a weinyddir ac a reolir gan ymddiredolwr diddymu, 74 miliwn cyfranddaliad yn ReNeuron.

14 Fel yr adroddwyd ym **mharagraff 1.4**, ymddiswyddodd Syr Christopher Evans o'r Panel Sector Gwyddorau Bywyd ar 19 Chwefror 2013. Felly, pan gyfarfu Pwyllgor Buddsoddi Arthurian ar 26 Mehefin 2013, nid oedd gan Syr Christopher Evans mwyach swyddogaeth ymgynghorol i Lywodraeth Cymru.

gyfarfod y Pwyllgor Buddsoddi), nad oedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweld ei gyfraniad fel un ymgynghorol yn yr ystyr honno. Fodd bynnag, daethom ni i'r casgliad nad oes modd yn y byd i ni gadarnhau fod Llywodraeth Cymru wedi trin yn briodol y gwrthdrawiad buddiannau a ddatganwyd yn gywir iddynt.

## Cafodd dyfarnu cefnogaeth 'mewn egwyddor' gan Lywodraeth Cymru i ReNeuron ei drin yn wael gan swyddogion ac ni roddwyd ystyriaeth lawn i'r achos dros ychwanegolrwydd

1.68 Ar 26 Mehefin 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lythyr yn cynnig grant 'mewn egwyddor'[15] i ReNeuron am Gyllid Busnes Ad-daladwy (Repayable Business Finance - RBF). Mewn gwirionedd yr oedd pecyn o bedair elfen ariannol ac anariannol i'r llythyr o gynnig mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru:

a cyllid busnes nad oedd i'w ad-dalu o £1.8 miliwn;

b grant hyfforddi o £0.5 miliwn;

c prosiectau ymchwil a datblygu o £1 miliwn; a

ch chefnogaeth ar gyfer ystafelloedd glân a chyfleuster gweithgynhyrchu a oedd yn werth hyd at £4.5 miliwn.

1.69 Parthed y gefnogaeth an-ariannol ym mharagraff 1.68d, nid oedd y costau i Lywodraeth Cymru o roi'r cyfleusterau hyn ar gael yn glir adeg gwneud y cynnig. Cadarnhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol y byddai ymdrechion yn cael eu gwneud i leihau i'r eithaf y costau hyn, a fyddai'n cael ei adlewyrchu yn y telerau masnachol y byddai ReNeuron yn eu talu am y brydles.

1.70 Toc wedyn, gofynnodd ReNeuron am lythyr 'cadarnach' yn cynnig grant, ac mewn ymateb, ar 12 Gorffennaf 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ail lythyr yn cynnig grant nad oedd yn cynnwys y datganiad gwreiddiol mai 'mewn egwyddor' yr oedd y cynnig. Fodd bynnag, ar y dyddiad hwnnw, nid oedd statws y cynnig wedi newid, ac felly yr oedd mewn gwirionedd yn dal 'mewn egwyddor' yn unig.

1.71 Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod yn rhaid iddynt ystyried cais grant ReNeuron ar fyrder er mwyn sicrhau'r buddsoddiad i Gymru, petai'n cael ei gymeradwyo. Fodd bynnag, yr oedd y ffurflen gais a gyflwynwyd gan ReNeuron yn anghyflawn; er enghraifft, yr oedd y gwariant arfaethedig ar y prosiect a'r cyllido a fwriadwyd yn wag. Hefyd, ni chydymffurfiwyd yn llawn â phrosesau busnes arferol Llywodraeth Cymru am Gyllid Busnes Ad-daladwy (RBF), er mwyn prysuro gyda chymeradwyo'r cais. Rhoddwyd gwybod i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gan swyddogion fod digon o wybodaeth yn y ddogfennaeth fantoli gan i hyn gael ei ategu gan ohebiaeth a deialog, oedd wedi galluogi gwneud penderfyniad 'mewn egwyddor' ar y cais. Dywedasant hefyd wrth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol nad peth anghyffredin yw i ffurflenni cais fod yn anghyflawn ac i'r wybodaeth angenrheidiol gael ei rhoi trwy gyfrwng dogfennau atodol eraill.

15 Mae Llywodraeth Cymru weithiau'n defnyddio cynigion 'mewn egwyddor' cyn cyflwyno cynnig ymrwymol, nes derbyn rhagor o wybodaeth oddi wrth ymgeisydd am grant i allugoi penderfyniad terfynol.

1.72 Oherwydd yr amserlen dynn a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i ystyried y cais, daeth y swyddogion i'r casgliad nad oedd digon o amser i gynnal cyfarfod llawn o Fwrdd Cynghorol Cymru ar Ddatblygu Diwydiannol (BCCDdD) Llywodraeth Cymru[16], yn unol â'r prosesau busnes arferol. Cytunodd Cadeirydd BCCDdD felly y gallai cynifer ag oedd modd o aelodau BCCDdD fynychu cyfarfod o Banel Buddsoddi Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth[17] er mwyn i'r Gweinidog allu manteisio ar eu cyngor wrth ystyried y cyflwyniad. Yr oedd pump (o wyth bryd hynny) o aelodau BCCDdD yng nghyfarfod y Panel Buddsoddi ar 18 Mehefin 2013, a gadarnhaodd y gefnogaeth ariannol arfaethedig i ReNeuron. Cafodd ei gymeradwyo wedyn gan y Gweinidog ar 24 Mehefin a gwnaed cynnig grant 'mewn egwyddor' i ReNeuron ar 26 Mehefin 2013 (gweler paragraff 1.68).

1.73 Cyfarfu BCCDdD nesaf ar 24 Hydref 2013, pryd y cadarnhaodd, yn ôl-weithredol, y gwerthusiad o gais ReNeuron ac angen y cwmni i godi ryw £15 miliwn. Gwnaed y gwerthusiad gan un o Uwch-Reolwyr Diwydrwydd Dyladwy Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth[18]. Fodd bynnag, yr oedd sefyllfa ariannol ReNeuron wedi newid yn ddramatig rhwng y cais a'r gwerthusiad, oherwydd y llwyddiant i greu diddordeb yn y cyfranddaliadau, oedd wedi codi £25.35 miliwn. Felly, cyngor yr Uwch-Reolwr Diwydrwydd Dyladwy i BCCDdD oedd na phrofwyd yr achos dros gwrdd â meini prawf ychwanegolrwydd na thros gefnogi lefel y cyllid i'w gynnig (sef yr uchafswm oedd ar gael dan derfynau Cymorth Gwladwriaethol).

1.74 Nododd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol fod BCCDdD er hynny yn fodlon fod y materion hyn wedi eu datrys yn ystod y broses werthuso. Fodd bynnag, deallwn na chafodd y penderfyniad dilynol i gadarnhau darparu cefnogaeth ariannol ei gofnodi, ar wahan i nodyn llawysgrifen gan ysgrifenyddiaeth BCCDdD oedd yn darllen fel a ganlyn: 'Ychwanegolrwydd - yn ôl-weithredol, ddim ei angen. Mae ein harian yn hwyluso prosiectau i ddigwydd hyd yn oed pan fo gan y busnes arian, mae ein harian yn cyflymu'r broses.'

1.75 Dywed Canllaw RBF Llywodraeth Cymru yn glir y dylai Llywodraeth Cymru weithredu fel cyllidwr dewis olaf. Yn yr achos hwn, yr oedd argaeledd cefnogaeth yn ffurfio rhan o'r prosbectws cyfranddaliadau a buasai wedi bod yn ystyriaeth berthnasol i helpu darpar fuddsoddwyr benderfynu prynu cyfranddaliadau neu beidio. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym, er y gallai argaeledd cefnogaeth RBF mewn egwyddor fod yn ystyriaeth berthnasol gan gwmnïau oedd yn ystyried prynu cyfranddaliadau ReNeuron mewn ymateb i'r prosbectws cyfranddaliadau (a lwyddodd wedi hynny i godi'r £25.35 miliwn o fuddsoddiad ecwiti), yn eu barn hwy, roedd cynnig RBF yn angenrheidiol fel rhan o becyn i ddenu ReNeuron i Gymru.

16 Mae BCCDdD yn banel o ddiwydianwyr sy'n rhoi cyngor annibynnol i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynghylch pob buddsoddiad sy'n fwy nag £1 miliwn.
17 Mae Panel Buddsoddi'r Adran yn rhoi cyngor annibynnol i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynghylch pob buddsoddiad sy'n llai nag £1 miliwn.
18 Mae Uwch-Reolwyr Diwydrwydd Dyladwy'r Adran yn gyfrifyddwyr cymwys sy'n cynnal asesiadau diwydrwydd dyladwy ar geisiadau (a chynlluniau busnes) a dderbynnir sydd yn gofyn am gefnogaeth ariannol. Ar sail eu hasesiad, gallant roi Cyngor mewnol i'r adran ar ddilysrwydd cais.

1.76 Dywedodd swyddogion wrth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, tra bod yr amserlen dynn ar gyfer ystyried y cyllido wedi arwain at beidio cynnal y gwerthusiad yn unol â'r gweithdrefnau safonol a chanllawiau RBF, serch hynny, fod y Panel Buddsoddi a BCCDdD yn fodlon argymell cymeradwyo'r cais (BCCDdD yn ôl-weithredol) er mwyn sicrhau'r prosiect mewnfuddsoddi proffil uchel hwn i Gymru.

1.77 Gwnaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ddau argymhelliad yn y maes hwn:

a Dylai Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth newid y trefniadau llywodraethiant ar gyfer gwerthuso ceisiadau am gyllid busnes i alluogi (ar sail eithriadol) ystyriaeth frys gan y Panel Buddsoddi neu BCCDdD. Derbyniodd y swyddogion yr argymhelliad hwn, gan ei weithredu ar unwaith.

b Dylai Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ofalu y cedwir cofnodion cynhwysfawr i gefnogi ystyried achosion buddsoddi gan swyddogion a BCCDdD ac alinio ceisiadau RBF gyda meini prawf y Cynllun. Derbyniodd y swyddogion yr argymhelliad, a'i weithredu erbyn 31 Gorffennaf 2014.

1.78 Ers hynny, cafodd Proses Cymeradwyo Ariannol y Sectorau a Busnes ei newid gan yr Adran mewn ymateb i'r argymhellion uchod gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mae'r trefniadau llywodraethiant yn awr yn galluogi (ar sail eithriadol) ystyriaeth frys i geisiadau am gyllid busnes. Nid ydym felly yn gwneud unrhyw argymhellion pellach ein hunain yn y maes hwn.

## Canfu ein hadolygiad o drydydd buddsoddiad y Gronfa fod gwrthdaro buddiannau wedi eu rheoli'n iawn gan bawb dan sylw, a hyd yma nid yw Cyllid Cymru wedi nodi unrhyw bryderon ynghylch trin gwrthdrawiadau ym muddsoddiadau dilynol y Gronfa

1.79 Ym Mawrth 2014, gwnaeth y Gronfa ei thrydydd buddsoddiad, o £4.62 miliwn yn Verona Pharma Plc. Nid ydym wedi archwilio'r buddsoddiad hwn yn fanwl. Fe wnaethom, fodd bynnag, adolygu cofnodion Tŷ'r Cwmniau oedd yn cadarnhau fod un o Gyfarwyddwyr Rheolwr y Gronfa hefyd yn Gyfarwyddwr Verona Pharma. Ers hynny, cadarnhaodd Cyllid Cymru a dweud wrthym mewn tystiolaeth fod Rheolwr y Gronfa wedi cwrdd â'u hymrwymiadau contractaidd trwy adrodd am y gwrthdrawiad, a'r modd y'i triniwyd, er boddhad i Cyllid Cymru, cyn i'r buddsoddiad gael ei wneud. Talodd Verona Pharma Plc ffî trefnu o £150,000 a TAW i Reolwr y Gronfa.

1.80 Ym mis Gorffennaf 2014, gwnaeth y Gronfa ei phedwerydd buddsoddiad, yn Simbec-Orion Group Ltd, am £8 miliwn. Nid ydym wedi archwilio'r buddsoddiad hwn yn fanwl. Fe wnaethom, fodd bynnag, adolygu cofnodion Tŷ'r Cwmniau oedd yn cadarnhau fod Simbec-Orion Group Ltd wedi dod i fod trwy newid enw Simbec Holdings Ltd (mewn grym o 26 Mehefin 2014). Yr oedd pedwerydd buddsoddiad y Gronfa felly yn chwistrelliad pellach o gyllid i'r sawl dderbyniodd fuddsoddiad cyntaf y Gronfa (gweler paragraff 1.54).

1.81 Mae cofnodion Tŷ'r Cwmniau yn cadarnhau'r canlynol:

a y penodwyd dau o Gyfarwyddwyr Rheolwr y Gronfa i Simbec Holdings Ltd ym Mai 2013, wedi buddsoddiad 'Simbec' cyntaf y Gronfa ym mis Ebrill 2013; a

b bod y ddau Gyfarwyddwr wedi parhau yn Gyfarwyddwyr Simbec-Orion Group Ltd, a'u bod felly yn Gyfarwyddwyr adeg buddsoddiad y Gronfa yn y cwmni hwnnw ym mis Gorffennaf 2013.

1.82 Ers Awst 2014, gwnaeth y Gronfa saith buddsoddiad arall (nas adolygwyd gennym, am iddynt gael eu gwneud wedi i waith maes ein harchwiliad ddod i ben). Mae Arddangosyn 1 yn gosod allan y buddsoddiadau.

Arddangosyn 1 - Buddsoddiadau'r Gronfa ers Awst 2014

| Mis | Buddsoddiad gan y Gronfa |
|---|---|
| Awst 2014 | Yn Medaphor Ltd am £0.6 miliwn (pumed buddsoddiad y Gronfa). |
| Tachwedd 2014 | Yn Interrad Medical Incorporated, cwmni o UDA, am £2.886 miliwn. |
| Ebrill 2015 | Yn Sphere Medical Holding Plc am £4 miliwn. |
| Mehefin 2015 | Yn Proton Partners Int Ltd am £10 miliwn. |
| Awst 2015 | Yn CeQur SA, cwmni preifat o'r Swistir, am £3.36 miliwn. |
| Awst 2015 | Ail fuddsoddiad gan y Gronfa yn ReNeuron Group Plc am £5 miliwn. |
| Medi 2015 | Yn Apitope International NV, cwmni preifat o Wlad Belg, am £3.9 miliwn (11fed buddsoddiad y Gronfa). |

## Ar hyn o bryd ni all Cyllid Cymru, nac yn wir Llywodraeth Cymru, arfer unrhyw reolaeth gontractaidd dros y ffioedd trefnu a godir gan Reolwr y Gronfa, oherwydd i'r sgôp ar gyfer codi ffioedd o'r fath gael ei anwybyddu yn ystod y broses gaffael

1.83 Fe wnaethom gadarnhau bod Rheolwr y Gronfa wedi sicrhau ffioedd trefnu (neu gyd-drafod) gan y naill gwmni a'r llall y gwnaeth y Gronfa ei buddsoddiadau cychwynnol ynddynt yn 2013. Dyma'r ffioedd oedd yn daladwy gan y cwmniau y buddsoddwyd ynddynt i Reolwr y Gronfa:

a £500,000 a TAW a dalwyd gan ReNeuron Group Plc, cwmni a ddyfynnwyd, parthed buddsoddiad y Gronfa o £5 miliwn (sef 10 y cant o werth buddsoddiad y Gronfa, neu ddau y cant o werth y ddêl); a

b £60,000 a TAW a dalwyd gan Simbec Ltd, cwmni ecwiti preifat, parthed buddsoddiad y Gronfa o £750,000 (sef wyth y cant o werth buddsoddiad y Gronfa).

1.84 Mae codi ffioedd trefnu yn amlwg yn lleihau capasiti ariannol y cwmnïau y buddsoddwyd ynddynt, ac y mae oblygiadau gwerth-am-arian andwyol i hyn oherwydd lleihau gallu'r cwmni y buddsoddir ynddo i gynhyrchu swyddi a thwf (a/neu elw i'r Gronfa ar ei buddsoddiad). Ar y llaw arall, petai gwerth y buddsoddiad ei hun yn cael ei gynyddu i dalu am gostau ychwanegol y ffî trefnu, fel y gellid dweud bod y cwmni y buddsoddir ynddo yn ddiniwed, yna byddai hyn yn gostwng gweddill capasiti ariannol y Gronfa i fuddsoddi mewn mannau eraill.

1.85 Gwelsom nad oedd potensial ffioedd trefnu o'r fath wedi eu hystyried naill ai gan Lywodraeth Cymru na Chyllid Cymru fel rhan o gaffael Rheolwr y Gronfa (gweler paragraff 1.29). Fodd bynnag, er nad oedd y broses dendro wedi cynnwys sgôp ar gyfer ffioedd o'r fath, ac nad oedd y ddogfennaeth dendro a dderbyniwyd gan y cwmnïau bidio yn cynnwys hyn chwaith, fe gawsom fod y contractau a lofnodwyd rhwng Cyllid Cymru a Rheolwr y Gronfa er hynny yn cynnwys cymalau sydd yn caniatáu i Reolwr y Gronfa godi ffioedd o'r fath ar gwmniau y buddsoddir ynddynt.

1.86 Roedd yr anghysondeb ymddangosiadol hwn wedi codi gan i eiriad contractau Rheolwr y Gronfa ddeillio o gontractau Cyllid Cymru oedd eisoes yn bod ac yn cael eu defnyddio ar gyfer cronfa fuddsoddi ar wahân nad oedd â chysylltiad â'r contractau hyn. Dywedodd swyddogion Cyllid Cymru wrthym nad oeddent yn ymwybodol o lefel y ffioedd trefnu a godwyd gan Reolwr y Gronfa hyd nes i adolygiad ein harchwiliad dynnu eu sylw atynt. Yn ein barn ni, dylai lefel y ffioedd trefnu arfaethedig gan bob tendrwr fod yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gaffael a rheoli'r contractau wedi hynny.

1.87 Mae Rheoliad 30 Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 yn gosod allan y meini prawf cysylltiedig â 'thestun contract', y gall awdurdod contractio eu hystyried wrth bennu y 'tendr mwyaf manteisiol yn economaidd'. Ymysg y meini prawf hyn mae 'cost effeithiolrwydd' yn ogystal â 'phris' uniongyrchol a 'chostau rhedeg', sy'n rhoi'r hawl i awdurdod contractio edrych y tu hwnt i gostau uniongyrchol y mae cyflenwr yn godi arnynt. Fodd bynnag, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym y buasai ystyried 'cost effeithiolrwydd' yng nghyswllt codi ffioedd trefnu gan Reolwr y Gronfa wedi cynyddu'r risg o her gyfreithiol. Cadarnhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru nad oedd eu barn yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol, ond yn hytrach ar eu profiad masnachol o ddatblygu a rheoli trefniadau contractaidd.

1.88 O ystyried pwysigrwydd y ffioedd trefnu i destun contract Rheolwr y Gronfa, gofynasom i Grant Thornton roi cyngor i ni ynghylch y canlynol:

a a oedd y ffioedd a godwyd gan Reolwr y Gronfa yn nodweddiadol o arferion safonol y diwydiant; a

b phetai'r ffioedd yn arfer safonol y diwydiant, a oeddent yn unol â chyfraddau nodweddiadol y farchnad.

1.89 Dyma gasgliadau Grant Thornton:

a Parthed paragraff 1.88(a), yr oedd codi ffioedd trefnu yn arfer safonol yn y farchnad ecwiti preifat. Fodd bynnag, nid oeddent yn ystyried fod lefel y ffî am fuddsoddiad ReNeuron, fel ffî drefnu, yn unol ag arfer y farchnad, yn enwedig am ei fod yng nghyswllt lleoliad gan gwmni a ddyfynnwyd yn gyhoeddus, er eu bod yn deall y gallasai'r ffî fod wedi bod am wasanaethau y byddid yn eu disgrifio'n fanylach fel gwasanaethau cyllid corfforaethol na fyddai fel arfer yn dod dan ffî drefnu.

b Parthed paragraff 1.88(b), er bod canran y ffî a dalwyd i Reolwr y Gronfa gan Simbec yn uchel, o ystyried maint bychan y buddsoddiad nid oedd y gost absoliwt o £60,000 yn ymddangos yn eithafol yn achos cwmni ecwiti preifat, ac y gallasai fod wedi adlewyrchu'r ffaith mai buddsoddiad bychan oedd hwn ac y gallai mwy o gyfalaf ddilyn.

1.90 Yn dilyn adolygiad Grant Thornton, yr ydym wedi nodi fod Rheolwr y Gronfa wedi codi ffî drefnu o £150,000 a TAW ar Verona Pharma Plc, trydydd buddsoddiad y Gronfa, sef 3.3 y cant o werth y buddsoddiad.

1.91 Gwnaed pedwerydd buddsoddiad y Gronfa i'r unfed buddsoddiad ar ddeg (gweler paragraffau 1.80 i 1.82) wedi i'n gwaith maes archwilio manwl gael ei gwblhau. Nid ydym ein hunain felly wedi ceisio canfod a godwyd ffioedd trefnu hefyd gan Reolwr y Gronfa ar yr wyth buddsoddiad hyn. Yr ydym, fodd bynnag, wedi cyfeirio at hyn yn ein hargymhellion i Lywodraeth Cymru am y buddsoddiadau hynny (gweler Argymhellion 6 a 7). Cafodd pwnc ffioedd trefnu oedd yn cael eu codi gan gwmnïau a gontractiwyd i reoli cronfeydd yng nghyswllt buddsoddiadau cyhoeddus

ei ystyried gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd San Steffan yn 2006. Yn eu hadroddiad[19] ar Uned Ddatblygu Menter Lleol Adran Fenter, Masnach a Buddsoddi Llywodraeth Gogledd Iwerddon, archwiliodd y Pwyllgor hwnnw amrywiaeth o faterion, gyda rhai ohonynt yn debyg iawn i arolygu a rhedeg Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru. Mae'n werth sylw bod ymateb ffurfiol Llywodraeth Gogledd Iwerddon[20] i adroddiad 2006 yn cynnwys yr ymrwymiad canlynol:

'I bwysleisio.. annibyniaeth rôl rheolwr y gronfa, bydd pob cytundeb cyfreithiol yn y dyfodol i sefydlu cronfeydd cyfalaf menter y bydd [yr Adran] a'i NDPB yn cyfrannu cyllid, yn cynnwys gwaharddiad penodol ar reolwr y gronfa, neu unrhyw staff a gyflogir gan reolwr y gronfa, yn dal cyfranddaliadau mewn cwmniau preifat y buddsoddir ynddynt. Hefyd, gwaherddir rheolwr cronfa rhag codi ffioedd am wasanaethau a ddarperir i gwmnïau y buddsoddir ynddynt y tu hwnt i'r rhai a osodir allan yn y tendr a arweiniodd at ddyfarnu'r contract i reoli'r gronfa.'

1.92 Parthed cyfeiriad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at annibyniaeth rheolwyr cronfeydd a'r ffaith eu bod yn dal buddsoddiad personol mewn cwmnïau y buddsoddwyd ynddynt, nodwn fod Cyllid Cymru ei hun yn gweithredu camau rheoli mewnol cadarn sy'n gwahardd ei weithwyr ei hunan rhag buddsoddi'n bersonol mewn cwmnïau y buddsoddir ynddynt. Mae gweithwyr Cyllid Cymru weithiau yn cael eu penodi yn Gyfarwyddwyr cwmnïau y buddsoddir ynddynt (ond dim ond gyda chydsyniad Prif Weithredwr Cyllid Cymru ymlaen llaw), ac nid ydynt yn derbyn unrhyw dâl ychwanegol am hyn naill ai gan Cyllid Cymru neu'r busnes y buddsoddir ynddo. Ar y llaw arall, mewn cronfa fasnachol, mae'n arferol i fuddsoddwyr ddisgwyl i reolwr y gronfa rannu risg y buddsoddiad, yn fwyaf amlwg trwy beryglu ei h/arian ei hun ochr yn ochr ag arian y buddsoddwr. Nodwn fod dogfennaeth y Gronfa yn benodol yn annog staff Rheolwr y Gronfa i fuddsoddi'n bersonol yng nghyfranddaliadau cwmnïau y buddsoddodd y Gronfa ynddynt.

1.93 Yn ein barn ni, dylai Cyllid Cymru geisio cytuno gyda Rheolwr y Gronfa sail contractaidd i gyfrifyddu a lefelau ffioedd trefnu yn y dyfodol, a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

19 HC918: **Governance issues in the Department of Enterprise, Trade and Investment's former Local Enterprise Development Unit**, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 46ed Adroddiad 2005-06.

20 Cmnd 6879: **Northern Ireland Department of Finance and Personnel Memorandum on the 46th Report from the Public Accounts Committee Session 2005-06**, Gorffennaf 2006, tudalen 11.

## Trwy ddewis hepgor ei hawl contractaidd i symud ymaith Reolwr y Gronfa heb achos, mae Cyllid Cymru wedi lleihau ei allu i arfer rheolaeth dros gontract rheoli'r gronfa a thanseilio ei bŵer cyfreithiol ei hun i ymyrryd ar ffioedd trefnu

1.94 Dan gontractau Rheoli'r Gronfa rhwng Cyllid Cymru a Rheolwr y Gronfa a lofnodwyd ar 28 Chwefror 2013, yr oedd gan Cyllid Cymru yr hawl contractaidd i symud ymaith Reolwr y Gronfa 'heb achos'[21]. Yr oedd hyn yn rhoi'r pwer i Gyllid Cymru gaffael rheolwr arall i'r gronfa, neu yn wir i wneud y swyddogaeth yn fewnol.

1.95 Ar 25 Mawrth 2014, llofnododd Cyllid Cymru a Rheolwr y Gronfa Gytundeb Amrywio. Dan hwn, ildiodd Cyllid Cymru eu hawl i symud ymaith Reolwr y Gronfa heb achos. Fe'n hysbyswyd fod y cytundeb hwn wedi ei wneud ar gais Cyllid Cymru ei hun er mwyn lleihau eu rheolaeth dros Reolwr y Gronfa, ac mai unig nod gwneud hyn oedd na fyddai angen cydgrynhoi canlyniadau ariannol y Gronfa i gyfrifon blynyddol Cyllid Cymru ccc. Dywedodd swyddogion Cyllid Cymru wrthym, er bod y cytundebau a arwyddwyd wedi cynnwys darpariaeth i symud ymaith Reolwr y Gronfa heb achos, fod ganddynt amheuon a ellid gorfodi'r cymal hwn yn gyfreithiol.

1.96 Nid ydym wedi ein hargyhoeddi fod rhesymeg cyfrifyddu o'r natur hwn yn seiliau cadarn dros i gorff cyhoeddus ddewis gwanhau ei allu i reoli perfformiad contractwr sydd i fod i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus ar ei ran. Mae bodolaeth y Cytundeb Amrywio yn lleihau gallu Cyllid Cymru i gael gwerth da am arian o gontract rheoli'r Gronfa yn y dyfodol. Yn benodol, mae hefyd yn debyg o fod yn rhwystr i Cyllid Cymru yn eu hymdrechion i gydymffurfio ag Argymhelliad 8 (ffioedd trefnu) yn yr adroddiad hwn.

1.97 Cadarnhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym eu bod yn ymwybodol o drafodaethau Cyllid Cymru a'u harchwilwyr allanol ynghylch cytundeb amrywio, ond nad oeddent wedi gweld y Cytundeb Amrywio ei hun hyd nes iddo gael ei lofnodi, pryd yr anfonodd Cyllid Cymru gopi iddynt.

21 Mae cytundeb Rheoli'r Gronfa hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer symud ymaith Arthurian gyda 'rheswm'; mae rhesymau o'r fath yn cynnwys twyll, esgeulstod,osgoi neu dorri amodau contract yn fwriadol.

## Nid yw Llywodraeth Cymru eto wedi pennu i ba raddau y mae'n disgwyl i endidau'r sector preifat sydd wedi eu contractio i reoli a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus ar eu rhan gydymffurfio ag Egwyddorion Nolan

1.98 Yn ystod adolygiad yr archwiliad hwn, buom yn trafod yn hirfaith gyda swyddogion Llywodraeth Cymru y graddau y dylid llywodraethu eu perthynas gydag endidau'r sector preifat a gontractiwyd fel asiantwyr y llywodraeth i reoli a chyflwyno gwasanaethau yn unol ag 'Egwyddorion Nolan'. Yr enw mwy ffurfiol ar y rhain yw Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a sefydlwyd ym 1995 gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus[22] ac a dderbyniwyd bryd hynny ac wedi hynny gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.

1.99 Mae 'Egwyddorion Nolan', a osodir allan yn Arddangosyn 2, yn ymgorffori sylfaen y safonau moesegol a ddisgwylir wrth stiwardio arian cyhoeddus.

### Arddangosyn 2 - Egwyddorion Nolan o ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus

Cafodd **Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus**, a adwaenir fel 'Egwyddorion Nolan', eu diffinio yn wreiddiol yn Adroddiad Cyntaf y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, Mai 1995.

Dyma'r egwyddorion:

- **Anhunanoldeb:** Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd a hynny'n unig. Ni ddylent weithredu er mwyn cael budd ariannol neu fudd arall iddynt eu hunain, eu teuluoedd na'u cyfeillion.
- **Uniondeb:** Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus eu gosod eu hunain o dan unrhyw ymrwymiad ariannol nac ymrwymiad arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.
- **Gwrthrychedd:** Wrth gynnal busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrau a buddion, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud dewisiadau ar sail rhinwedd.
- **Atebolrwydd:** Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd i'r cyhoedd a rhaid iddynt dderbyn unrhyw graffu a fo'n briodol i'w swyddi.
- **Bod yn agored:** Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored ag y bo modd ynglŷn â'r holl benderfyniadau a chamau gweithredu a gymerant. Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau ac ni ddylent gyfyngu ar wybodaeth ac eithrio pan fo'n amlwg fod hynny er budd y cyhoedd.
- **Onestrwydd:** Mae dyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fudd preifat yn ymwneud â'u dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi mewn ffordd sy'n diogelu budd y cyhoedd.
- **Arweinyddiaeth:** Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn trwy arweiniad ac esiampl.

22 Mae'r Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus yn gorff cyhoeddus ymgynghorol anadrannol. Ceir rhagor o wybodaeth am waith y **Pwyllgor ar ei wefan**.

1.100 Ni wnaeth Llywodraeth Cymru cyn hyn ystyried yn fanwl pa mor gymwys yw Egwyddorion Nolan i endidau'r sector preifat a gontractiwyd fel asiantwyr y llywodraeth i reoli a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Nid mater syml mo hyn, oherwydd yn benodol fod rhai anawsterau ymarferol gwirioneddol i gymhwyso egwyddor Nolan o 'anhunanoldeb' i endid sy'n gwneud elw. Mae hefyd yn fater sy'n peri penbleth ar hyn o bryd i Lywodraeth y DU[23]. Mae'r safbwynt a gymerwyd gan Lywodraeth Gogledd Iwerddon mewn ymateb i argymhelliad blaenorol gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus San Steffan hefyd yn berthnasol yma (gweler paragraff 1.91).

1.101 Fodd bynnag, mae'n bwysig i Lywodraeth Cymru roi canllawiau clir i'w swyddogion ei hun, i'w cyrff hyd-braich (gan gynnwys Cyllid Cymru a gwahanol Gyrff Noddedig Llywodraeth Cymru) a hefyd yn ehangach ar draws y sector cyhoeddus Cymreig ynghylch eu disgwyliadau yn hyn o beth. Wrth ddatblygu canllawiau o'r fath, gall fod o gymorth i Lywodraeth Cymru dalu sylw i adroddiad diweddar[24] gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, **Conflicts of Interest**. Unwaith i safbwynt pendant gael ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru, dylai'r canllawiau hynny gynnwys gofyniad am gynnwys amodau penodol mewn contractau yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

1.102 Nodwn ddau adroddiad cymharol ddiweddar gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Yn gyntaf, adroddiad y Pwyllgor, **Standards Matter**[25], a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2013. Parthed llywodraethiant a moeseg derbyn gwasanaethau o'r tu allan, tynnwn sylw at y detholion allweddol isod o'r adroddiad:

'Mae amwysedd cynyddol ynghylch pobl sydd wedi eu contractio i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus nad ydynt yn ddeiliaid swyddi cyhoeddus. Credwn yn gryf y dylai'r safonau moesegol a ymgorfforir yn y saith egwyddor fod yn gymwys hefyd i unigolion o'r fath a'u sefydliadau. Fel gweision cyhoeddus traddodiadol, maent yn derbyn arian cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau ar ran y gymuned i unigolion nad oes ganddynt ddewis, efallai, ynghylch mynd i rywle arall.

'Egwyddorion yw'r hyn sy'n bwysig wrth bennu beth y 'dylai' pobl wneud yn hytrach na'r hyn y gallant 'wneud heb gael eu dal'. Ond po fwyaf amwys yr amgylchiadau (hynny yw, po leiaf y gall yr egwyddorion ymddangos i unigolyn fod yn amlwg yn gymwys) lleiaf o afael maent yn debyg o gael. Ymddengys y bydd hyn yn arbennig o bwysig yn achos cyflenwyr anhraddodiadol gwasanaethau cyhoeddus. Oni chaiff yr egwyddorion eu trosi'n glir i gontractau a chanllawiau clir, nid yw'n debygol y bydd contractwyr preifat yn arbennig yn credu eu bod yn ddiamwys yn gymwys iddynt hwy (o ystyried tebygolrwydd gwrthdrawiadau rhwng cymhellion elw preifat a gwasanaeth cyhoeddus), nac yn treulio amser yn canfod o'r egwyddorion sut y maent i fod i ymddwyn. Mae cyfrifoldeb felly ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i nodi gofynion moesegol penodol a chymesur yn y contractau y maent yn osod ar ran y sector cyhoeddus. Mae hwn yn faes anodd, a bydd angen cryn ymdrech i weithio allan yr oblygiadau yn ymarferol. Mae'n faes y gall y Pwyllgor ymchwilio iddo yn y dyfodol.'

23 Er enghraifft, ymdriniodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd San Steffan â'r mater hwn yn eu hadroddiad ym mis Tachwedd 2014: **Out of Hours GP services in England** (22ain Adroddiad Sesiwn 2014-15).
24 **Conflicts of Interest**, adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 27 Ionawr 2015 (HC 907 o Sesiwn 2014-15).
25 **Standards Matter**, 14eg adroddiad gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, 17 Ionawr 2013 (Cmnd 8519).

1.103 Yn ail, adroddiad y Pwyllgor, **Ethical standards for providers of public services**[26], a gyhoeddwyd ym Mehefin 2014. Yr ydym yn cefnogi argymhellion y Pwyllgor yn eu hadroddiad, ac y mae dau ohonynt yn arbennig o berthnasol i'r materion yr ymdrinnir â hwy yn yr adroddiad archwilio hwn:

a 'Dylai Swyddogion Cyfrifyddu[27] fynd ati i geisio sicrwydd fod arian cyhoeddus yn cael ei wario yn unol â'r safonau moesegol uchel a ddisgwylir gan bawb sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus; a

b 'Dylai Swyddogion Cyfrifyddu ardystio yn flynyddol eu bod wedi eu bodloni eu hunain ynghylch digonolrwydd trefniadau eu sefydliad, ar sail sicrwydd ffurfio gan y darparwyr eu bod hwy yn derbyn yr angen am safonau moesegol wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus.'

1.104 Yn y pen draw, ac fel y dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor, yr Arglwydd Bew, yn ei adroddiad: 'dylai unrhyw gorff sy'n darparu unrhyw wasanaeth cyhoeddus sicrhau bod y cyfryw safonau yn ffurfio rhan o'i ddiwylliant a'i ymddygiad a'u bod yn cael eu gweld ar waith o'r dechrau i'r diwedd. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cefnogi'r farn hon yn gryf ac yn ystyried, yn ei rôl dan gontract fel Rheolwr y Gronfa, fod Arthurian yn darparu gwasanaeth cyhoeddus.

26 Gweler **Ethical standards for providers of public services** y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, 17 Mehefin 2014.
27 Yn yr achos hwn, Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru dros Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol (gan na ddynodwyd Prif Weithredwr Cyllid Cymru yn Swyddog Cyfrifyddu).

# Atodiadau



# Atodiad 1- Crynodeb o daliadau a wnaed i Reolwr y Gronfa dan y 'trefniadau interim'

Fel yr esboniwyd ym mharagraffau 1.31 i 1.53 yr adroddiad, rhwng Hydref 2012 ac Ebrill 2013 gwnaeth Llywodraeth Cymru a Cyllid Cymru daliadau i Arthurian (Rheolwr y Gronfa) dan 'drefniadau interim' oedd yn rhedeg tan 28 Chwefror 2013, hyd nes i'r cwmni gael awdurdod gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Mae'r tabl crynodeb isod yn cymharu:

- Colofnau A a B -rhestr y taliadau fyddai wedi bod yn ddyledus i Arthurian gan Cyllid Cymru rhwng Hydref 2012 a 28 Chwefror 2013, petai contractau rheoli'r gronfa wedi bod yn eu lle o 8 Hydref 2012 fel y bwriadwyd yn wreiddiol; a
- Colofnau C a D –yr union daliadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru a Cyllid Cymru i Arthurian rhwng Hydref 2012 ac Ebrill 2013 dan y 'trefniadau interim'.

| | (A) | (B) | (C) | (D) |
|---|---|---|---|---|
| **Mis** | **Taliadau fuasai wedi bod yn ddyledus hyd at 28 Chwefror 2013, petai'r contractau wedi bod yn eu lle fel y cynlluniwyd o 8 Hydref 2012** | | **Union daliadau a wnaed dan y trefniadau interim** | |
| | **Fesul mis (£)** | **Cronnus (£)** | **Fesul mis (£)** | **Cronnus (£)** |
| Hydref 2012 | 577,285 | 577,285 | 173,000 | 173,000 |
| Tachwedd 2012 | 104,167 | 681,452 | 480,000 | 653,000 |
| Rhagfyr 2012 | 104,167 | 785,619 | 0 | 653,000 |
| Ionawr 2013 | 104,167 | 889,786 | 179,419 | 832,419 |
| Chwefror 2013 | 104,167 | 993,953 | 26,581 | 859,000 |
| Mawrth 2013 | – | – | 103,000 | 962,000 |
| Ebrill 2013 [benthyciad] | – | – | 260,000 | 1,222,000 |
| **Cyfanswm** | | **993,953** | | **1,222,000** |

Nodiadau:

1 Mae Colofnau C a D yn cynnwys y benthyciad o £260,000 a ddarparwyd i Arthurian gan Lywodraeth Cymru yn Ebrill 2013, sy'n ad-daladwy dros 18 mis o Awst 2015 (gweler **paragraffau 1.48 i 1.53** yr adroddiad).

2 Ers 28 Chwefror 2013, ac yn unol â thelerau'r contract y cytunwyd arnynt, talodd Cyllid Cymru ffî reoli fisol i Arthurian o £104,167 (sef un rhan o ddeuddeg o 2.5 y cant o £50 miliwn).

3 Nid yw'r taliadau a ddangosir yn nhabl y crynodeb yn cynnwys y ffioedd trefnu a sicrhawyd gan Arthurian gan gwmnïau y buddsoddwyd ynddynt.

4 Mae'r holl ffigyrau a ddangosir yn nhabl y crynodeb heb gynnwys TAW.

Mae'r tablau isod yn rhoi mwy o fanylion am y taliadau a wnaed gan Cyllid Cymru a Llywodraeth Cymru dan y 'trefniadau interim'.

## Taliadau a wnaed gan Cyllid Cymru

| Dyddiad | Swm (£) | Disgrifiad yng nghofnodion Cyllid Cymru |
|---|---|---|
| 31 Hydref 2012 | 173,000 | 'Taliad diwydrwydd dyladwy.' |
| Gweler isod[28] | 489,359 | 'Costau sefydlu.' |
| 12 Chwefror 2013 | 34,600 | 'TAW ar y taliad a wnaed ar 31 Hydref 2012.' |

## Taliadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru

| Dyddiad | Swm (£) | Disgrifiad yng nghofnodion Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| 15 Ionawr 2013 | 103,000 | 'Gwasanaethau yng nghyswllt rheoli, rhedeg a thargedau arweiniol y Gronfa Gymreig. Data'r farchnad a dadansoddiad am y cyfnod 1 Rhagfyr 2012 i 1 Ionawr 2013.' |
| 13 Chwefror 2013 | 20,600 | 'TAW ar y taliad a wnaed ar 15 Ionawr 2013.' |
| 31 Ionawr 2013 | 76,419 | 'Mapio ecosystem Gwyddorau Bywyd Cymru, dadansoddiad o'r farchnad, dadansoddiad manwl o'r rhagolygon hynny sy'n debygol o gynhyrchu buddion sylweddol i sector Gwyddorau Bywyd Cymru, a pharatoi deunydd cysylltiadau cyhoeddus.<br>1 Ionawr – 23 Ionawr 2013.' |
| 13 Chwefror 2013 | 15,284 | 'TAW ar y taliad a wnaed ar 31 Ionawr 2013.' |
| 25 Chwefror 2013 | 26,581 | 'Fel taliad 31 Ionawr – cyfnod dan sylw 24 Ionawr i 31 Ionawr 2013.' |
| 25 Chwefror 2013 | 5,316 | 'TAW ar y taliad a wnaed ar 25 Chwefror 2013.' |
| 21 Mawrth 2013 | 103,000 | 'Fel taliad 31 Ionawr– am y cyfnod 1 Chwefror i 28 Chwefror 2013.' |
| 21 Mawrth 2013 | 20,600 | 'TAW ar y taliad a wnaed ar 21 Mawrth 2013.' |
| 18 Ebrill 2013 | 260,000 | 'Benthyciad i Arthurian, yn adlewyrchu'r safle ariannol a ragwelwyd petai'r gronfa wedi ei sefydlu ac yn rhedeg yn ôl yr amserlenni gwreiddiol.' |

28 Swm net a dalwyd gan Cyllid Cymru i Arthurian, seiliedig ar daliadau benthyciadau a derbynebion cysylltiedig ym mis Tachwedd 2012 a Chwefror 2013.

# Atodiad 2 - Argymhellion Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru (detholion)

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr |
|---|---|
| Dylid cynnal ymarferiad gwersi a ddysgwyd er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau yn cael eu cryfhau yn Llywodraeth Cymru a Cyllid Cymru er mwyn gofalu bod polisiau a gweithdrefnau yn cael eu newid rhag i bethau tebyg ddigwydd eto. Dylai'r ymarferiad gynnwys ystyriaeth o'r modd y dylid cymhwyso Egwyddorion Nolan. | **Derbyniwyd**<br>Rheolwyr i baratoi a chyhoeddi adroddiad gwersi a ddysgwyd. [gweler Atodiad 3]<br>Hefyd, mae'r rheolwyr wedi cyfarwyddo Cyllid Cymru i ddarparu adroddiad blynyddol ar berfformiad Arthurian yn erbyn yr amcanion a osodwyd.<br>Yng Nghyllid Cymru cynhelir cyfarfod o'r sawl sy'n rhan o'r broses gaffael a nodir camau sy'n deillio o'r adroddiad hwn.<br>**Dyddiad Targed Gweithredu:**<br>31 Gorffennaf 2014 (gyda gweithredu/ gwreiddio'r gwersi a ddysgwyd erbyn Hydref 2014). |
| Dylai Tîm Panel y Sector atgoffa Aelodau Panel y Sector o'r angen i ddatgan gwrthdrawiadau buddiannau wrth iddynt godi a rhoi canllawiau i aelodau ynghylch beth sydd yn wrthdaro. | **Derbyniwyd**<br>Cyflwynodd y rheolwyr bapur i Banel y Sector sy'n gosod allan beth a olygir wrth wrthdaro a'r broses i reoli gwrthdrawiadau o'r fath.<br>**Dyddiad Targed Gweithredu:**<br>Ar unwaith. |
| Dylai tîm Panel y Sector gadarnhau bodolaeth neu absenoldeb datgan buddiannau ym mhob cyfarfod o Banel y Sector a chofnodi'r canlyniadau, ynghyd ag unrhyw gamau lliniaru angenrheidiol, yng nghofnodion y cyfarfod. | **Derbyniwyd**<br>Mae'r rheolwyr yn mynnu fod pob Panel Sector i gael gwrthdrawiadau buddiannau fel yr eitem sylweddol gyntaf ar agenda pob cyfarfod o'r Panel ac y maent wedi atgoffa Cadeiryddion y Sectorau ac Ysgrifenyddiaethau'r Paneli o hynny.<br>**Dyddiad Targed Gweithredu:**<br>Ar unwaith. |
| Dylai Cyllid Cymru adolygu'r Cytundeb Partneriaeth Gyfyngedig a Chytundeb Rheoli'r Gronfa gydag Arthurian er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n gywir gyfrifoldebau'r naill ochr a'r llall, a'u bod yn gyson â manyleb y tendr a'r bid am gontract Rheolwr y Gronfa. | **Derbyniwyd**<br>Mae hyn ar y gweill ar hyn o bryd ac anfonwyd drafft o gytundeb newydd at Arthurian.<br>**Dyddiad Targed Gweithredu:**<br>31 Gorffennaf 2014. |

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr |
|---|---|
| Dylai unrhyw ddatgeliadau pellach a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru parthed Arthurian yn rhinwedd eu swydd fel Rheolwyr Cronfa Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru gael eu dychwelyd at Arthurian gyda chyfarwyddyd clir i gyfeirio’r datgeliad at Cyllid Cymru yn unol â’r LPA. | **Derbyniwyd**<br>Gwnaed hyn eisoes.<br>**Dyddiad Targed Gweithredu:**<br>Ar unwaith. |
| Lle nodir gwrthdrawiadau buddiannau, dylai Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth sicrhau y cedwir cofnodion priodol o gyfarfodydd y gellir eu dirnad fel rhai yn ymwneud â’r datgeliad er mwyn dangos fod gwrthdrawiadau buddiannau yn cael eu rheoli’n briodol. | **Derbyniwyd**<br>Cyhoeddwyd cyfarwyddyd a bydd cofnodion cyfarfodd Panel y Sector yn cynnwys cyfeiriadau priodol at reoli unrhyw wrthdrawiadau buddiannau.<br>**Dyddiad Targed Gweithredu:**<br>31 Awst 2014. |
| Dylai Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth newid y trefniadau llywodraethiant ar gyfer gwerthuso ceisiadau am gyllid busnes er mwyn iddynt gael eu hystyried (fel eithriadau) ar frys gan y Panel Buddsoddi neu BCCDdD. | **Derbyniwyd**<br>Mae’r broses ar gyfer ceisiadau llwybr cyflym yn cael ei ddogfennu yn y canllawiau.<br>**Dyddiad Targed Gweithredu:**<br>Ar unwaith. |
| Dylai Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ofalu y cedwir cofnodion cynhwysfawr i gefnogi ystyried achosion buddsoddi gan swyddogion a BCCDdD ac alinio ceisiadau am Gyllid Busnes i’w Ad-dalu gyda meini prawf y cynllun. | **Derbyniwyd**<br>Caiff yr arfer presennol yn y maes hwn ei wella.<br>**Dyddiad Targed Gweithredu:**<br>31 Gorffennaf 2014. |

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr |
|---|---|
| Dylai gweithdrefnau caffael Cyllid Cymru gael eu hadolygu a'u newid lle bo angen i adlewyrchu'r canlynol:<br>yr angen i gadw cofnodion cynhwysfawr wedi eu dogfennu i ategu'r broses asesu a phenderfyniadau allweddol a gymerir wrth wneud yr ymarferiad caffael;<br>dylai pob tendr a dderbynnir gael ei werthuso yn erbyn meini prawf cyn-werthuso (lle'u defnyddir),cyn bwrw ymlaen i werthuso llawn;<br>ar gyfer pob contract a gaffaelir lle mae angen achrediad yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, dylai hyn fod yn amod tendr gorfodol oni welir hyn fel arfer rhwystrol dan reoliadau caffael yr UE;<br>dylid gwneud pob gwaith diwydrwydd dyladwy cyn dyfarnu'r contract a dylai fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfoes; a<br>lle darperir rhagdybiaethau ariannol yn y Gwahoddiad i Dendro, dylid gwerthuso pob tendr yn eu herbyn er mwyn sicrhau cysondeb. | **Derbyniwyd**<br>Dyma fydd sylwedd y cyfarfod gwersi a ddysgwyd. Gofynnwyd i Arthurian ddarparu tystiolaeth o daliadau dan y costau sefydlu.<br>**Dyddiad Targed Gweithredu:**<br>31 Gorffennaf 2014. |
| Dylai Cyllid Cymru gael tystiolaeth o daliadau gan Arthurian a'u hanfonebau cefnogol (neu'r hyn sy'n cyfateb) i gefnogi'r costau sefydlu a ddaeth i ran Arthurian ac adennill unrhyw swm dros ben a dalwyd. | **Derbyniwyd**<br>Gofynnwyd i Arthurian ddarparu tystiolaeth o daliadau dan y costau sefydlu.<br>**Dyddiad Targed Gweithredu:**<br>31 Gorffennaf 2014. |
| Yn y dyfodol, dylai Cyllid Cymru ddogfennu'n glir y dull a'r rhesymeg a ddefnyddiwyd i gyfrifyddu Ffioedd Rheoli Cronfa lle'r anfonwyd y swyddogaeth Rheoli Cronfa i gorff allanol. | **Derbyniwyd**<br>Gwneir hyn yn amlwg ym mhob gwahoddiad i dendro yn y dyfodol.<br>**Dyddiad Targed Gweithredu:**<br>Nid oes modd cynnwys dyddiad penodol yma gan y bydd yn gymwys i unrhyw dendr yn y dyfodol, nad yw eu dyddiadau yn hysbys eto. |

# Atodiad 3 - Adroddiad 'Gwersi a Ddysgwyd' Llywodraeth Cymru a Chamau a Gymerwyd (Ionawr 2015)

| Gwers | Camau a gymerwyd |
|---|---|
| **Gwrthdrawiadau buddiannau** | |
| 1. Cyn gynted ag y daw rhywun sydd yn ymgymryd â rôl dros neu ar ran Llywodraeth Cymru yn fidiwr i ddarparu nwyddau neu wasanaethau i Lywodraeth Cymru yna rhaid nodi hyn ac adolygu a rheoli eu sefyllfa yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Gall hyn olygu naill ai eu bod yn rhoi'r gorau i'w rôl gyda Llywodraeth Cymru neu yn sefydlu prosesau cadarn i reoli'r sefyllfa. | Nodyn wedi ei gyhoeddi yn yr Ardal Sectorau a Busnes gan y Cyfarwyddwr Sectorau a Busnes yn mynnu rhoi mesurau lliniaru priodol yn eu lle mewn sefyllfaoedd o'r fath. |
| 2. Dylai aelodau Paneli Sector ddatgan gwrthdrawiadau buddiannau fel y codant ac ym mhob cyfarfod o Banel y Sector. | Cafodd Penaethiaid Sectorau gyfarwyddyd gan y Cyfarwyddwr Sectorau a Busnes i roi 'gwrthdrawiadau buddiannau' fel yr eitem arweiniol yng nghyfarfod pob panel. |
| 3. Dylai Ysgrifenyddiaethau Paneli Sector ddarparu canllawiau i aelodau'r Panel ynghylch beth sydd yn wrthdaro buddiannau. | Cynhyrchwyd canllawiau gan Uwch-reolwr Llywodraethiant Corfforaethol a'i roi i aelodau Paneli'r Sector. |
| 4. Dylid cofnodi canlyniadau datganiadau o fuddiant a dderbyniwyd a'r camau lliniaru yng nghyfarfodydd Paneli. | Cyfrifoldeb y Penaethiaid Sector yw gofalu bod hyn yn cael ei wneud ym mhob cyfarfod. |
| 5. Lle datganwyd gwrthdaro buddiannau dylem sicrhau, os bydd y sawl a ddatganodd wrthdaro yn cysylltu â swyddog perthnasol o Lywodraeth Cymru, fod natur y cyswllt yn cael ei ddogfennu, a hefyd y modd y rheolwyd y gwrthdaro; hefyd fod cofnodion priodol cyfarfodydd y gellir eu dirnad fel rhai yn ymwneud â'r datgeliad yn cael eu cadw er mwyn dangos fod gwrthdrawiadau buddiannau yn cael eu rheoli yn briodol. | Nodyn wedi ei gyhoeddi yn y Sectorau a Busnes gan Gyfarwyddwr Sectorau a Busnes. |
| 6. Os derbynnir unrhyw ddatgeliadau pellach oddi wrth Arthurian Life Sciences gan Lywodraeth Cymru yna dylid cyfleu'r rhain i Cyllid Cymru yn ôl y gofyn. | Bydd hyn yn berthnasol i Bennaeth y Sector Gwyddorau Bywyd yn unig a gweithredwyd arno unwaith. |

| Gwers | Camau a gymerwyd |
|---|---|
| **Gwrthdrawiadau buddiannau** | |
| 7. Mae angen i'r Adran ddatblygu canllawiau i sefydlu eglurder ar Egwyddorion Nolan ym maes gorgyffwrdd ynghylch pobl a benodwyd i swyddi cyhoeddus a buddiannau masnachol a gall hyn hefyd olygu disgwyliadau ynghylch ymddygiad moesegol yng nghyswllt contractwyr allanol. | Gweithredu i Uwch-Reolwr Llywodraethiant Corfforaethol ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant<br>Cael ei ddwyn ymlaen trwy'r Pwyllgor Llywodraethiant Corfforaethol. Papur cychwynnol wedi ei gynhyrchu ar gyfer cyfarfod 21 Hydref 2014.<br>Cyfarwyddwr Sectorau a Busnes wedi cyfeirio at hyn mewn nodyn a roddwyd i Benaethiaid Sector. |
| 8. Rhaid i unrhyw gyfarwyddiadau desg ystyried gwrthdrawiadau buddiannau gwirioneddol a phosib. | Ymdriniwyd â mater 'unrhyw wrthdaro buddiannau posib' yn y nodyn a gyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr Sectorau a Busnes.<br>Gwnaed cyfeiriad penodol at ganfyddiad o wrthdaro wedi ei wneud mewn nodyn a gyhoeddwyd gan yr Uwch-Reolwr Llywodraethiant Corfforaethol i aelodau Paneli'r Sector.<br>Gwrthdaro posib hefyd wedi ei gynnwys yn y diffiniad yng nghyd-destun ystyried cynigion a dderbyniwyd. |
| 9. Dylid gwneud gwelliannau i drefniadau trosglwyddo prosiectau a materion cysylltiedig. | Ymdriniwyd â hyn yn y nodyn a gyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr Sectorau a Busnes. |
| **Llywodraethiant cynlluniau cymorth ariannol** | |
| 10. Rhaid dogfennu'r prosesau ynghylch y mantoli a chynigion o gefnogaeth ariannol i gwmnïau yn llawn fel bod trywydd rheoli ac archwilio effeithiol ar gael ym mhob achos o fuddsoddi a ystyrir gan y rheolwyr BCCDdD. | Cyfrifoldeb y Penaethiaid Sector yw peri bod eu timau yn ymwybodol o'r prosesau hyn.<br>Ymdriniwyd â'r pwnc yn y nodyn gan y Cyfarwyddwr Sectorau a Busnes. |
| 11. Mae angen i ni newid y trefniadau llywodraethiant ynghylch cymeradwyo ceisiadau am gyllid busnes i adlewyrchu trefniadau mewn achosion brys. | Gwnaed hyn gan y Pennaeth Diwydrwydd Dyladwy a Monitro. |

| Gwers | Camau a gymerwyd |
|---|---|
| **Governance of financial assistance schemes** | |
| 12. Rhaid cael eglurder ynghylch mater llythyrau mewn egwyddor, o ran pwy sydd i fod i'w cymeradwyo. | Cynhyrchodd y Pennaeth Monitro a Diwydrwydd Dyladwy egwyddorion gweithredu diwygiedig ar gyfer y broses Gymeradwyo Ariannol sydd yn amlinellu'r broses ar gyfer cynigion mewn egwyddor. |
| 13. Dylai unrhyw lythyrau 'mewn egwyddor' fod â dyddiadau dod i ben. | Ar hyn o bryd yn gweithio ar dempled o lythyrau fydd yn cynnwys cyfeiriad at ddyddiadau dod i ben. |
| **Prosesau mewnol** | |
| 14. Sicrhau eglurder ar yr ymateb a roddir i unrhyw hawl i wyro y gofynnir amdano. | Cyfrifoldeb yr holl staff. Ymdrinnir â hyn mewn nodyn a gyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr Sectorau a Busnes. |
| 15. Mae angen i ni sicrhau gwelliannau mewn rheoli prosiectau o ran gwneud taliadau am wasanaethau a bwrcaswyd, o ran gwirio cyn talu fod y gwasanaethau hynny wedi eu derbyn. | Ymdrinnir â hyn mewn nodyn a gyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr Sectorau a Busnes. |
| 16. Dylid monitro perfformiad contractau ym mhob achos. | Ymdrinnir â hyn mewn nodyn a gyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr Sectorau a Busnes. |
| **Cyllid Cymru** | |
| 17. Dylai Cyllid Cymru gynnal ymarferiad annibynnol ar wersi a ddysgwyd yn deillio o agweddau o'r adroddiad sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y corff hwnnw. | Cwblhaodd Archwilwyr Mewnol Cyllid Cymru (Mazars) adolygiad o brosesau Caffael yng Nghyllid Cymru i weld lle gellir gwneud gwelliannau pellach. |

# Atodiad 4 - Adroddiad Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyllid Cymru (detholion perthnasol)

Yn Hydref 2014, derbyniodd Cyllid Cymru adroddiad gan eu harchwilwyr mewnol eu hunain, yn gosod allan ganlyniadau adolygiad o drefniadau caffael ar gyfer llawer o brosiectau (gan gynnwys caffael rheolwr i'r Gronfa) a wnaed ar gais rheolwyr Cyllid Cymru.

Gofynnwyd i'r archwilwyr mewnol nodi lle gellid gwneud gwelliannau pellach yn y prosesau caffael, yn ychwanegol at argymhellion Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru (GAMLIG) (cyfeiriad yn Atodiad 2) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC).

Casgliad yr archwilwyr mewnol oedd: 'y gellir rhoi [graddfa o] **sicrwydd rhannol**[29] i ddigonoldeb yr amgylchedd rheoli ac y gellir rhoi **sicrwydd rhannol** i gymhwyso camau rheoli yng nghyswllt yr ardaloedd risg a archwiliwyd yn ein hadolygiad o brosesau caffael'.

Mae'r detholion canlynol o'r adroddiad archwilio mewnol (oedd yn ymdrin â'r cyfnod o hysbysiad y contract at ddyfarnu'r contract) yn berthnasol i gaffael Rheolwr y Gronfa:

- Sefydlodd Cyllid Cymru banel caffael oedd â'r sgiliau a'r arbenigedd perthnasol...ar gyfer Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru, ceisiwyd cymorth allanol i ofalu bod profiad priodol o fuddsoddi mewn gwyddorau bywyd ar gael ar y panel.

- Maes gwella a nodwyd yn adroddiadau drafft GAMLIG a SAC oedd yr angen i ddogfennu a chofnodi yn glir bob penderfyniad a wnaed. Codwyd y pwynt hwn yn arbennig yng nghyd-destun Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru, lle na chafodd y penderfyniad i fwrw ymlaen gydag Arthurian er nad oeddent yn cydymffurfio â gofynion y GiD, ei gofnodi yn ffurfiol. Fe wnaethom nodi fod gwersi o'r fath yn ymddangos fel petaent wedi eu cymhwyso yng nghyd-destun [caffaeliadau eraill gan Cyllid Cymru].

- Maes gwella a nodwyd gan GAMLIG a SAC oedd yr angen i sicrhau bod bidwyr yn cydymffurfio â gofynion tendro. Er enghraifft, yng Nghronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru, ni allodd y bidiwr llwyddiannus, Arthurian, gydymffurfio â'r gofynion am gyfrifon wedi eu harchwilio am iddo gael ei sefydlu fel Cyfrwng Pwrpas Arbennig gyda'r pwrpas o fidio am y gronfa. Fe welsom fod sefyllfa debyg wedi codi yn achos [caffaeliad arall gan Cyllid Cymru] er, yn yr achos hwn, nad oedd yn ymwneud â'r bidiwr llwyddiannus. Ymhellach, nid oedd modd i ni gael tystiolaeth i wirio a adolygwyd manylebion a gofynion y tendr yn fewnol neu'n allanol ai peidio cyn yr ymarferiad caffael a allasai fod wedi atal y sefyllfaoedd hyn rhag codi.

- Mae Cyllid Cymru yn diffinio mecanwaith sgorio cyn ymarferion caffael seiliedig ar gymysgedd o gost ac ansawdd. Fe wnaethom felly geisio gofalu bod sgorio a gwerthuso tendrau yn cael ei wneud yn unol â'r mecanweithiau sgorio oedd yn bod eisoes. Gwelsom nifer o eithriadau i gymhwyso'r cam rheoli hwn, gan gynnwys:

  a. Yr oedd camgymeriadau rhifyddol yn [yr ymarferiad caffael], oedd yn golygu y rhoddwyd sgoriau terfynol anghywir a'u cyfleu i'r bidiwr, er na fuasai'r rhain wedi bod yn ddigon sylweddol i effeithio ar y canlyniad terfynol;

  b. Anghysondeb yn yr agwedd a gymerwyd at sgorio gan aelodau'r panel yn [yr ymarferiad caffael], gyda rhai o aelodau'r panel yn rhoi sgôr a rhesymau dros y sgôr, ac aelodau eraill y panel yn gwneud dim ond nodi sgôr; a

29 Mae'r cwmni archwilio mewnol yn defnyddio graddfa sicrwydd dri-phwynt yn eu hadroddiad i Cyllid Cymru: 'Cyfyngedig –'Rhannol' – 'Sylweddol'.

c Sgoriau terfynol y tendr heb eu dilysu na'u dogfennu ar gyfer [yr ymarferiad caffael].

Lle gwnaethom nodi anghysonderau yn y mecanwaith sgorio a ddefnyddiwyd, fe wnaethom asesu'r effaith ar ganlyniad cyffredinol yr ymarferiad caffael ac yr ydym yn falch o ddweud na fuasai dyfarnu'r contract wedi newid.

| Argymhellion | Ymateb y rheolwyr |
|---|---|
| Dylai Cyllid Cymru ofalu bod manylebion a gofynion tendrau yn cael eu hadolygu'n drylwyr naill ai'n fewnol neu yn allanol cyn bwrw ymlaen gydag ymarferion caffael. Yn benodol, dylai Cyllid Cymru ofalu nad yw'r gofynion yn rhwystrol ond eu bod ar yr un pryd yn rhoi sicrwydd digonol rhag methiant ar ran y cyflenwr. | Nodwn y sylwadau ac, yn ychwanegol at gymryd cyngor cyfreithiol pan fo angen, fe fyddwn yn cynnal gwell herio mewnol er mwyn sicrhau rheoli'r pwynt ynghylch cadw cydbwysedd rhwng cyfyngiadau a diogelwch. |
| Fel y nodwyd yn adroddiad drafft GAMLlG a SAC, dylai Cyllid Cymru sicrhau fod cydymffurfio â gofynion y tendr yn cael ei wirio cyn cynnal y gwerthuso. Lle na ellir dangos cydymffurfio am resymau derbyniol, dylid dogfennu'n glir y penderfyniadau a gymerwyd. | Byddwn yn sicrhau bod trywydd a ddogfenwyd yn bodoli ar gyfer pob pwynt penderfynu yn ystod y broses. |
| Dylai Cyllid Cymru sicrhau bod gwerthusiadau yn cael eu cynnal yn gyson ar draws holl aelodau'r panel. Dylai hyn gynnwys rhesymau dros y sgoriau a roddwyd i helpu wrth ddilysu sgoriau gwahanol, a gofalu bod tystiolaeth briodol o'r sgoriau a roddwyd a'r penderfyniadau a wnaed yn aros ar y ffeil.<br>Dylai Cyllid Cymru sicrhau bod gwiriadau rhifyddol yn cael eu cynnal ar sgorio tendrau, er mwyn gwneud yn siŵr fod sgoriau tendr a gyflëir i fidwyr llwyddiannus ac aflwyddiannus yn fanwl gywir. Neu fe allai Cyllid Cymru ystyried sefydlu model sydd angen llai o gyfraniad â llaw. | Nodwn y sylwadau a chytunwn i adolygu ein proses ar gyfer gwerthuso tendrau. Bydd hyn ar ffurf rhestr wirio ffeil a sefydlir rhag blaen. Fel gwiriad pellach, fe wnawn ofyn i aelod o'r tîm Cyllid adolygu'r metrigau gwerthuso cyn eu hanfon at y panel gwerthuso i'w cwblhau.<br>Gweler uchod. |
| Dylai Cyllid Cymru ystyried cynnal ymarferion 'gwersi a ddysgwyd' ffurfiol wedi cwblhau gweithgaredd caffael sylweddol, er mwyn adolygu a gwella prosesau. | Nodir y sylwadau a bydd ymarferiad gwersi a ddysgwyd yn cael ei adeiladu i mewn i'r polisi a'r proses caffael diwygiedig. Bydd adroddiad yn dilyn pob ymarferiad caffael hefyd yn ofyniad gorfodol unwaith i Gyfarwyddebau newydd yr UE gael eu gosod yng nghyfraith y DU yn gynnar yn 2015. |

# Atodiad 5 - Dulliau Archwilio

## Cwmpas ein gwaith

Ym Medi 2013, hysbysodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yr Archwilydd Cyffredinol fod aelod o'r cyhoedd wedi cysylltu ag ef yn mynegi pryderon ynghylch buddsoddiadau diweddar mewn cwmni (ReNeuron Plc) gan y Gronfa a Chadeirydd y Gronfa, Syr Christopher Evans, oedd â buddiant ariannol blaenorol (a ddatgelwyd yn llawn) yn y cwmni hwnnw ac sy'n aelod o'i fwrdd.

Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol rai ymholiadau cychwynnol i'r mater hwn a phenderfynu ym mis Hydref 2013 i ehangu cwmpas ei adolygiad cychwynnol i astudiaeth lawn fyddai'n edrych i mewn i sefydlu'r Gronfa gan Lywodraeth Cymru a Chyllid Cymru, y trefniadau llywodraethiant cysylltiedig, a'r modd yr arolygwyd ei gweithrediadau cychwynnol.

Hefyd ym mis Hydref 2013, mewn ymateb i ymdriniaeth gan y cyfryngau o weithrediadau'r Gronfa, penderfynodd Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o rai agweddau o'r Gronfa gan ei Wasanaeth Archwilio Mewnol (GAM). I osgoi dyblygu gweithgaredd archwilio cyhyd ag oedd modd, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol asio ei waith maes archwilio gydag eiddo tîm y GAM, a rannodd eu canfyddiadau archwilio a'u hadroddiad gyda staff Swyddfa Archwilio Cymru. O ganlyniad i'r agwedd gydweithredol hon at waith maes:

- edrychodd GAM i ddechrau ar weithrediadau Llywodraeth Cymru;
- edrychodd GAM a staff Swyddfa Archwilio Cymru ar y cyd ar weithrediadau Cyllid Cymru; ac
- edrychodd staff Swyddfa Archwilio Cymru ar weithrediadau Rheolwr y Gronfa.

## Y modd y cynhaliwyd ein gwaith

Dyma oedd ein gwaith maes archwilio:

- adolygu dogfennau a ffeiliau;
- adolygu llenyddiaeth a chwiliadau cwmnïau;
- cyfweliadau a chyfarfodydd (wyneb yn wyneb a thros y ffôn) gyda swyddogion perthnasol yn Llywodraeth Cymru a Chyllid Cymru, a chyda Phrif Weithredwr Rheolwr y Gronfa;
- cyfnewid gohebiaeth gyda gwahanol bartïon a'u cynrychiolwyr cyfreithiol;
- dadansoddiadau o wybodaeth ariannol;
- adolygiadau o ganfyddiadau ac adroddiadau'r GAM ac adroddiad hefyd gan dîm archwilio mewnol Cyllid Cymru; ac
- ystyried canlyniadau'r cyfraniad arbenigol a gomisiynodd yr Archwilydd Cyffredinol gan Grant Thornton UK LLP ar agweddau penodol o weithgareddau buddsoddi'r Gronfa a'r ffioedd trefnu a godwyd gan Reolwr y Gronfa am y ddau fuddsoddiad cyntaf.

## Adolygu dogfennau

Fe wnaethom adolygu amrywiaeth eang o ddogfennau a ddaliwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyllid Cymru yn ymwneud â sefydlu, llywodraethiant ac arolygu'r Gronfa. Darparwyd llawer o'r ddogfennaeth hon yn uniongyrchol i staff Swyddfa Archwilio Cymru gan y swyddogion perthnasol, ac ni allwn fod yn sicr ein bod wedi adolygu'r holl ddogfennaeth sy'n berthnasol i'r Gronfa ac i gwmpas ein hadolygiad.

Fe wnaethom hefyd adolygu ffeiliau a phapurau a ddaliwyd gan GAM o ganlyniad i'w hadolygiad a'u hadroddiad archwilio, ynghyd â dogfennaeth a gynhyrchwyd gan fuddsoddiadau cyntaf ac ail y Gronfa.

## Adolygu cofnodion Tŷ'r Cwmniau

Fe wnaethom adolygu cofnodion perthnasol Tŷ'r Cwmniau, yn bennaf yng nghyswllt caffael Rheolwr y Gronfa gan Cyllid Cymru. Fe wnaethom hynny hefyd yng nghyswllt pedwar buddsoddiad cyntaf y Gronfa gan dalu sylw arbennig i Gyfarwyddwyr pob cwmni y buddsoddwyd ynddynt.

## Clirio'r adroddiad drafft

Dilynasom ein proses 'glirio' arferol lle'r oeddem yn rhoi cyfle i wneud sylwadau a cheisio cadarnhad gan bob corff ac unigolyn y cyfeiriwyd atynt yn ein hadroddiad i'r perwyl fod:

- yr holl ffeithiau yn yr adroddiad wedi eu datgan yn gywir;
- pob ffaith berthnasol wedi ei chynnwys; ac
- y cyflwynir y ffeithiau yn deg.

Mae'n bwysig nodi mai dim ond y 'ffeithiau' yn yr adroddiad sydd wedi eu 'clirio' fel hyn; erys y casgliadau a'r argymhellion sydd yn yr adroddiad yn rhai'r Archwilydd Cyffredinol.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru